# Y Bont

Clybiau Plant Cymru
KIDS' CLUBS
www.clybiauplantcymru.org

Gaeaf 2019

Rhifyn 72
ISSN 1464-4282



# Nadolig Llawen!

## Yn y rhifyn hwn...

* Newyddion Rhanbarthol
* Bev yn Gwirfoddoli yn Rwmania
* Cymraeg Gwaith
* Gweithgareddau'r Gaeaf

...a mwy!

Cwmni Cyfyngedig
drwy Warrant 4296436
Elusen Gofrestredig 1093260
Yn gweithio mewn partneriaeth â: Llywodraeth Cymru Welsh Government

Rhifyn 72 Gaeaf 2019

## Yn y rhifyn hwn...


Llythyr gan y
Prif Swyddog Gweithredol.........2

Bev yn Rwmania......................3

Ffocws ar Orllewin Cymru...4 & 5

Ffocws ar Ogledd Cymru....6 & 7

Ffocws ar Dde Ddwyrain
Cymru................................8 & 9

Hyfforddiant.....................10 & 11

Cymraeg Gwaith......................12

Syniadau Codi Arian...............13

Prosiectau.........................14

Cwrdd â'r Tîm.........................15

Diweddariad i Gyflogwyr.16 & 17

Gweithgareddau'r Gaeaf.........18



Ymwadiad:
Gwneir pob ymdrech gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs i sicrhau bod cynnwys ein newyddlen yn gywir Dylech nodi nad yw Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn cymeradwyo unrhyw un o'r gwasanaethau, clybiau, gweithgareddau nac erthyglau, ac ni fydd yn gyfrifol am unrhyw weithred ar ran unrhyw berson neu grŵp o bobl sy'n darllen y newyddlen. Er gwybodaeth yn unig y dosberthir y newyddlen; heb gyfrifoldeb na rhwymedigaeth gyfreithiol.



Cwmni cyfyngedig drwy warant 4296436
Elusen Gofrestredig 1093260

Swyddfa Gofrestredig:
Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs,
Tŷ'r Bont, Ffordd yr Orsaf, Llanisien,
Caerdydd. CF14 5UW
Ffôn: 029 2074 1000
Ffacs: 029 2074 1047
E-bost: info@clybiauplantcymru.org
Y We: www.clybiauplantcymru.org


# Annwyl Aelod o Glwb Gofal Plant All-Ysgol



Croeso i'n rhifyn gaeaf o'r Bont, ac am ffordd i ddechrau, trwy ddathlu!

Rydym wedi derbyn dyfarniad o **Grant Pawb a'i Le – Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol** dros 3 blynedd.

Hoffem ddiolch i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol am y dyfarniad o grant, ac wrth gwrs rhaid diolch i'r cyhoedd sy'n chwarae'r Loteri bob wythnos; hebddyn nhw ni fyddai'r ariannu hwn, ac felly'r prosiect, yn bosibl.

Edrychwn ymlaen at weithio gyda'r Clybiau Gofal Plant Allysgol mewn ardaloedd ar hyd a lled Cymru. Drwy'r prosiect yma byddwn yn ceisio eu cefnogi drwy ymweliadau wyneb yn wyneb a sgiliau busnes, helpu i wella ansawdd chwarae a gofal mewn Clybiau Gofal Plant Allysgol drwy uwchsgilio Gweithwyr Chwarae a rheolwyr, rhoi gwell mynediad at ddarpariaethau gofal a chwarae gyda Chlybiau wedi'u cofrestru gyda chynlluniau'r Llywodraetha fydd yn rhoi gwell fforddiadwyedd, a gofal plant cyffredinol a fydd yn fwy cynaliadwy, wedi'i reoli'n dda, ac yn darparu gofal parhaus i blant.

Yn ystod y tymor nesaf byddwn yn cefnogi'r sector Gofal Plant Allysgol gyda'u Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth. Byddwn yn cydweithio'n agos ag AGC a phartneriaid eraill CWLWM i sicrhau bod lleoliadau'n glir ynghylch gofynion yr Hunanasesu a byddwn wrth law os bydd arnoch angen unrhyw help i'w gyflwyno. Gobeithio y byddwch wedi manteisio ar y cyfle i fynychu ein digwyddiadau Rhwydwaith yn ystod mis Tachwedd ac wedi cael y diweddariad gan AGC ynghylch yr Hunanasesu, felly y fyddwch chi oll yn barod ac yn barod pan ddaw'n fyw ar Ionawr 6ed?

A dyma fwy o newydd da; byddwn yn cynnal 2 ddigwyddiad Rhwydwaith arall ym mhob rhanbarth yn y Flwyddyn Newydd, pan fyddwn yn cefnogi staff Gwaith Chwarae a Rheolwyr. Bydd un digwyddiad, â'r teitl, Adeiladu Chwaraelu Cryfach yn cael ei arwain gan ein tîm hyfforddi! Bydd yr ail yn cael ei arwain gan ein Swyddogion Datblygu Busnesau Gofal Plant ac wedi ei seilio ar y pynciau y mae clybiau'n ein holi fwyaf amdanynt. Bydd llond gwlad o hwyl a gweithgareddau ym mhob digwyddiad, gan helpu'r sector i fod yn gryfach.

Cyfarchion y tymor i chi i gyd.



Jane O'Toole, Prif Swyddog Gweithredol

# Ffioedd gostyngol am Wiriadau Datgelu a Gwahardd (GDG)

Cyflenwr dewisol Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs' ar gyfer Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yw uCheck. Defnyddiwn y darparydd hwn i wirio ein staff ein hunain ac i gyfeirio ein Haelodau i uCheck, gan y gall Aelodau hefyd gael ffioedd prosesu gostyngol!

Mewn grym o Hydref 1 2019, mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) wedi gostwng y ffioedd ar gyfer gwiriadau'r GDG, ac mae uCheck yn trosglwyddo'r gostyngiad hwn i'w cwsmeriaid.

| Math o wiriad GDG | Y ffi bresennol | Y ffi o Hydref 1 2019 |
|---|---|---|
| Gwiriad GDG Sylfaenol | £25.00 | £23.00 |
| Gwiriad GDG Safonol | £26.00 | £23.00 |
| Gwiriad GDG Manylach | £44.00 | £40.00 |

Ond nid yn nhermau ariannol yn unig y cyfrifir y gost; mae eich amser yn werthfawr hefyd. Mae uCheck yn gwybod y gall talu am bob gwiriad â cherdyn fod yn drafferth ychwanegol, felly byddant yn ychwanegu nodwedd waled cyn hir. Bydd y waled yn gweithio'n debyg i dalu-wrth-fynd ffôn symudol. Ategwch at y waled a thalwch am wiriadau allan o'ch balans. Bydd hyn hefyd yn help pan fydd deiliad y cerdyn i ffwrdd - os oes arian yn y waled gall y gweddill o'r tîm barhau i ofyn am wiriadau. Byddwn mewn cysylltiad i drosglwyddo mwy o ddiweddariadau pellach am y nodwedd gyffrous hon yn fuan!

A wyddech chi fod uCheck hefyd yn cynnig gwiriadau Hawl i Weithio, DVLA, Credyd Drwg a Modd Adnabod? Anfonwch e-bost i info@ucheck.co.uk os hoffech fwy o wybodaeth ar y rhain.

Os oes arnoch angen ffurflen gais i gofrestru gydag uCheck i gael ffioedd prosesu gostyngol, cysylltwch â membership@clybiauplantcymru.org

# Rwmania
## Bev Williams

Es ar drip gwirfoddoli i Rwmania eleni gyda dau weithiwr chwarae o Ynysoedd Shetland. Aethom i bentrefi Sipsi Romani, sef 'Valea Rece' ac 'Ormanish' - i ddod â chyfleoedd chwarae newydd i'r plant. Fe wnaethom brynu lawer o adnoddau ar gyfer chwarae a chawsom roddion o ddillad, esgidiau a dillad isaf a.y.b. Treuliais y rhan fwyaf o'm hamser yn Valea Rece, pentref bychan iawn â phoblogaeth enfawr o 3,500(a1,500 ohonynt yn blant). Mae plant Valea Rece yn byw yng nghanol tlodi a gordyrru eithafol, a does ganddyn nhw ddim teganau na phethau i chwarae â nhw; a does gan y mwyafrif o deuluoedd ddim mynediad at ofal meddygol, addysg na buddiannau'r wladwriaeth.

Y tro cyntaf imi gerdded i fyny ar hyd y pentref, ces fy atgoffa o wlad wedi'i rhwygo gan ryfel, adeiladau'n dadfeilio ac yn siglog, rwbel a sbwriel blith draphlith ar hyd y strydoedd, a'r hyn a'm tarodd i oedd pa mor wirioneddol dlawd yw'r plant. Prin iawn oedd eu dillad, a doedd gan y mwyafrif ddim esgidiau na hyd yn oed ddillad isaf. Dim ond un tap dŵr a oedd rhwng yr holl bentref ac mae'r garthffosiaeth yn rhedeg ochr yn ochr â'r cartrefi a llwybrau cerdded lle mae'r plant yn chwarae - gall haint ac anhwylderau achosi problemau iechyd difrifol i hen ac ifanc, - does dim asesiadau risg yn cael eu cynnal i ddiogelu'r plant yma!

Mae llawer o'r rhieni'n gaeth i gyffuriau neu alcohol ac maent yn anfon eu plant i'r trefi i hel cardod er mwyn prynu bwyd ac i ariannu'u harfer. Am y rheswm yma, doedd nifer o'r plant ddim yn cael dod i chwarae, ac, yn frawychus, ymosodir ar nifer o'r plant gan oedolion am hel cardod ar y strydoedd. Er gwaetha'r heriau sy'n wynebu'r plant yma, maen nhw'n hapus, yn hoff o hwyl, ac fe wnânt chwarae ag unrhyw beth. Mae'r plant yn cymryd rhan mewn llawer o chwarae Cymdeithasol; ac fel mewn unrhyw bentref bach arall, mae pawb yn adnabod ei gilydd.

Tybiais a oedd gan brofiadau bywyd y plant effaith ar ansawdd eu chwarae, felly cymerais yr amser i arsylwi ar y plant yn chwarae er mwyn sylwi'n wrthrychol ar ddamcaniaeth a thybiaethau chwarae.

Roedd y plant wedi'u cyffroi wrth feddwl am chwarae gyda'r adnoddau y gwnaethom eu prynu; ond gwelais i lefel arall i werth a rhychwant Rhannau Rhydd; roedd y plant yn defnyddio unrhyw beth o gwbl y gallent roi eu dwylo arno, ac roedd y gyriant i chwarae yn amlwg yn yr holl blant. Roedd ciwiau ac ymatebion y plant yn rhai y gellid eu hadnabod, ac a oedd yn nodweddiadol, o'r broses chwarae. Roedd y mwyafrif o'r ciwiau chwarae'n ystumiau wynebol a chorfforol, ond byddai'r plant yn tynnu'ch sylw drwy daro a thynnu; nid profiad anarferol i mi, a chollwyd ciwiau gan fod cynifer ohonynt!





Roedd fframiau chwarae'n cael eu cydnabod gan y plant ac arsylwais arnynt yn chwarae'n unol â mathau cydnabyddedig Bob Hughes o chwarae; roedd y plant yn defnyddio prennau i brocio aderyn mawr ac i fflicio baw gafr; fe wnaeth rhai gasglu a chymysgu pridd, glaswellt, dail a cherrig mewn cynhwysydd wedi'i waned o hanner pêl-droed. Cafwyd gwedd newydd ar 'Ffyn pŵ' wrth iddynt 'rasio'u ffyn/gwellt/bagiau creision a.y.b.i lawr y ffrwd garthffosiaeth.

Roedd rhai o'r bechgyn yn gryn fedrus yn cadw gwrthrych yn yr awyr, gyda bron unrhyw beth, yn cynnwys caeadau potel, cerrig, ffyn, cerrig ffrwyth, poteli plastig a hyd yn oed baw gafr! Mae diwylliant y dyrnau diamddiffyn yn cyfrannu tipyn at chwarae'r plant (y bechgyn gan fwyaf); ac roedden nhw wrthi o hyd yn cogio bocsio ac yn gwneud ymarferion ymwthio a chodi-i-eistedd i wneud argraff ar y gweithwyr chwarae. Fe wnaeth y bechgyn iau ymwneud cryn dipyn â'r defnyddiau celf a chrefft, gan fwyaf gan na fyddai'r bechgyn hŷn yn gadael iddynt ymuno mewn gemau gyda nhw - patrwm hierarchaeth cyfarwydd, sy'n nodweddiadol o'r mwyafrif o leoliadau chwarae!

Nid yw chwarae mentrus a chwarae yn bethau sy'n cael eu 'darparu' ar gyfer y plant hyn, mae eu bywydau pob dydd yn un risg fawr! Gwelais y plant yn dringo allan o ffenestri llawr-cyntaf, yn neidio dros byllau tân - ers yn blant bach iawn, chwarae yn y garthffosiaeth neu yng nghanol baw anifeiliaid ac maen nhw'n 'chwarae' herian yr anadlwr glud preswyl er mwyn iddo'u hymylid o gwmpas y pentref!

Tueddai'r marched fod ynglŷn â chwarae mwy nodweddiadol o'u rhywedd, megis gwneud pethau gyda'r cyflenwadau celf a chrefft, brodio'u gwalltiau'i gilydd, gemau clapio dwylo, sgipio, rhoi colur ar ei gilydd, hyd yn oed lapio bricsen mewn papur a'i suo fel baban a.y.b. Gwnaeth y mwyafrif o'r plant faneri Romani; maen nhw'n falch iawn o'u treftadaeth a baner eu gwlad, yn union fel plant Cymru.

Yn ystod y trip fe wnaethom ni ymweld â phentrefi gwledig wedi'i phoblogi â Sipsiwn, sef Ormanish - awr o belter i ffwrdd yn y car, ac yn wrthgyferbyniad llwyr i Valea Rece. Mae pentrefwyr Ormanish yn ariannol dlawd; eto mae'r tai'n fawr ac ar eu pennau eu hunain, â thrydan a mynediad diddiwedd at ffynhonnau dŵr ffres, wedi eu lleoli mewn ardal gefn-gwlad paradwysaidd. Mae gan y pentref ei far, siop, a swyddfa bost ei hun ac mae'r mwyafrif o deuluoedd yn ennill eu bywoliaeth drwy weitho ar eu ffermydd; mae'r drafnidiaeth yn cynnwys ceir a cheffylau a chertiau. Mae'r mwyafrif o blant y pentref yn mynychu'r ysgol (tua 50 i gyd - daeth 20 o blant i chwarae tra roeddem ni yno) ac fe wnes i gyfarfod â pherson ifanc a oedd yn mynychu Prifysgol er mwyn dod yn athro ysgol. Tra bûm yn arsylwi ar blant Ormanish yn chwarae, sylwais ar rai mathau o ymddygiad anghonfensiynol a sylweddolais nad oedd y plant yn ymddangos yn ymatebol iawn i giwiau chwarae, gan ei gilydd na chan oedolion. Roedd y chwarae'n hollol ddi-drefn ac roedd yn ymddangos fel petai fframiau chwarae'n cael eu hanwybyddu gan y plant ac roeddent yn eu difodi'n gyson.

Byddai'r plant yn taflu ffrisbi at weithiwr chwarae neu at ei gilydd, ac ni fyddent yn rhedeg i ffwrdd cyn iddo ddod yn ôl; gwnaeth yr un peth ddigwydd gyda'r mwyafrif o giwiau chwarae. Roedd hyn yn nodweddiadol o'r holl blant Ormanish. Cymerodd gwpl o'r bechgyn bleser mewn rhoi slam i'r bêl at y gweithwyr chwarae ac at blant eraill. Nid bod hynny'n anarferol mewn chwarae, ond yr hyn a gefais yn anarferol oedd bod y mwyafrif o'r plant yn ddigon bodlon ynghylch math unigol o chwarae; chwarae'n unigol â'r adnoddau, ac roedd eu ciwiau bron yn 'edrychwch arna i' ac nid yn giw i chwarae. Ro'n i'n meddwl efallai fod y plant wedi'u cyffroi, a'r rheswm dros eu hymddygiad chwarae gwrthdrawol; felly fe wnes ymgais i'w cael oll at ei gilydd i chwarae gêm o rownderi, gyda help bachgen lleol, Alberto, a oedd yn rhugl yn y Saesneg. Fe wnaethom drefnu'r plant yn dimau ac o fewn munudau i'r gêm ddechrau roedd y plant wedi rhedeg i ffwrdd, wedi cipio'r adnoddau chwarae eraill ac yn chwarae'n unigol unwaith eto Roedd ambell i 'bâr' o blant yn chwarae ond dim ond munudau a barodd y fframiau chwarae hyn.

Mae gan y plant o'r ddau bentref brofiadau bywyd sy'n wahanol iawn i'w gilydd; mae gan drigolion Ormanish ffordd hamddenol o fyw, maent yn well eu byd yn ariannol ac nid ydynt yn dioddef yr un tlodi llym, cartrefi gwael a dylanwadau a rhwystrau cymdeithasol andwyol rhai sy'n effeithio ar blant Valea Rece. O ran profiadau chwarae, mae plant Valea Rece yn agored i chwarae sy'n cynnwys mwy o risg a chwarae corfforol; mae eu cylch cymdeithasol nhw'n enfawr o'i gymharu â'r Ormanish. Er bod plant Ormanish yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd, diddorol oedd sylwi bod datblygiad gwybyddol, rhesymeg a sgiliau datrys problemau plant Valea Recea yn fwy datblygedig; roeddent yn ymateb yn well i ysgogwyr ac yn defnyddio eu meddyliau a'u cyrff i chwilota yn eu hamgylchfyd - ac roedd ganddynt ddewis amrywiol o rannau rhydd ar flaenau bysedd - yn llythrennol. Fe'm trawodd i fod rhai pethau'n debyg rhwng diwylliannau Ormanish a Valea Rece: roedd cerddoriaeth, bwyd a dawns yn chwarae rhan fawr yn chwarae cymdeithasol a chyfathrebol y plant yn y ddau bentref. Ond dois i weld fod plant Valea Rece, a'u chwarae cymdeithasol-gyfoethog a chorfforol fel petaent yn eiddgar am ryng-gysylltu â'r gweithwyr chwarae, ac nad oedd plant Ormanish yn talu sylwi ni o gwbl; roedden nhw'n hapus ynghylch eu pethau eu hunain.




# Gorllewin Cymru



## Hwyl yr Haf yn Abertawe!

Cafodd y plant sy'n mynychu Cynllun Chwarae Interplay yn Ysgol Crug Glas yn Abertawe amser wrth eu boddau dros wyliau'r haf! Nid yn unig y bu iddynt gael ymweliad hyfryd gan sw anwes, a ddaeth â swricatiaid ac armadilo i'r plant eu gweld, ond cawsant hefyd ymweliad cyffrous gan y Frigâd Dân leol a roddodd cyfle i'r plant ddefnyddio'r hos ddŵr a mynd yn wlyb iawn, iawn! Cafodd pawb hefyd amser gwych yn cael eu hunain mewn llanast drwy gael brwydr paent powdr a wnaeth eu gadael yn bob lliw o'u pen i'w corryn fel y gallwch weld o'r ffotograff!





# Bagiau Cymorth Tesco – Sir Benfro




Mae clybiau ar hyd a lled Sir Benfro wedi elwa yn fawr o weithdai clwb rhad ac am ddim, wedi eu hariannu trwy garedigrwydd Tesco a'u prosiect cymunedol, Bagiau Cymorth. Mae Clwb Gwyliau Redhill a Kingfishers CCASC wedi cael gweithdai Adeiladu Deniau, Parth Natur ac Yn Gyforiog o Gemau, ac yma maent yn cael llawer o hwyl.

Rydym wedi cael adborth rhagorol o'r ddau leoliad. Dyma rai o'r sylwadau:

### Oddi wrth y plant

*"Roedd yn lot o hwyl gyda fy ffrindiau yn y clwb." " Ro'n i'n hoffi fwyaf gwneud y den!"*

*"Ro'n i'n hoffi y gallem ni ddewis y cyfarpar i wneud y deniâu ein hunain."*

*"Cawsom lawer o hwyl yn y coed yn dysgu pethau newydd."*

### Oddi wrth y Gweithwyr Chwarae

*"Roedd yr hyfforddi wedi ei gyflwyno'n dda i grŵp eang, 3-11 blwydd oed."*

*"Fe wnaethom ni fwynhau'r hyfforddiant yn fawr; mewn ffordd rwydd ond llawn gwybodaeth."*

**Os ydych yn aelod o Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs ac â lleoliad Allysgol yn Sir Benfro, cysylltwch â swyddfa Gorllewin Cymru i wirio a ydych yn gymwys i gymryd rhan yn y prosiect.**



**Angen cysylltu â ni?**

Cewch gysylltu â Thîm Gorllewin Cymru
drwy ffonio: 01269 831010,
drwy ebost: info-ww@clybiauplantcymru.org
trwy'r post: Uned 2, Clos Gelliwerdd, Parc Busnes Cross Hands, Cross Hands, Sir Gaerfyrddin. SA14 6RX

## SWYDDOG DATBLYGU BUSNESAU GOFAL PLANT GORLLEWIN CYMRU'N CYFARCH AELOD GLYBIAU NEWYDD YN SIR GAERFYRDDIN



Fel y gwnaethom grybwyll yn rhifyn yr Hydref o'r Bont, rydym yn hynod falch o gyhoeddi agoriad 3 chlwb ôl-ysgol, haf a Sadwrn yn Sir Gaerfyrddin. Roedd yn addas felly, a minnau hefyd yn newydd i deulu Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, y byddai fy nghyfarfod cyntaf gyda Jo a Mel yn Crossroads Sir Gâr, a wnaeth, gyda'u tîm, sefydlu tri chlwb ychwanegol mewn gwahanol fannau yn Sir Gaerfyrddin ddim ond eleni.

Fel y gwyddom, mae sefydlu un clwb yn dipyn o dasg. Felly mae sefydlu tri ar unwaith yn gryn gamp. Wrth gwrs, roedd sawl her ar hyd y ffordd, ond dyma'r merched yn eu hwynebu wrth fynd yn eu blaenau a bellach gallant ddweud eu bod wedi llwyddo. Ac wrth gwrs, cafodd ein dogfennau ar ein hadnoddau ddefnydd da dros y cyfnod hwn. Mae Crossroads Sir Gâr Cyf. yn elusen gofrestredig (Rhif 1121666) a chanddi swyddfeydd yng Nghaerfyrddin, Llanelli a Cheredigion. Ymhlith manteision defnyddio'r clybiau hyn i ddarparu gofal plant y mae: y gofal arbenigol y maent yn ei ddarparu ar gyfer plant ag anghenion arbennig, cofrestru gydag AGC, eu cysylltiad â ninnau, ac wrth gwrs, diolch i'w cofrestriad gydag Arolygiaeth Gofal Cymru gallant dderbyn talebau gofal plant, gofal plant di-dreth ac unrhyw gynllun arall o eiddo'r Llywodraeth sy'n gwneud gofal plant yn fwy fforddiadwy i deuluoedd yng Nghymru. Mae'r clybiau newydd, sy'n cael eu rhedeg gan yr elusen, yn darparu gofal cynlluniau-chwarae i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion ychwanegol. Mae ganddynt glybiau haf, clybiau penwythnos a chlybiau ôl-ysgol sy'n rhedeg drwy gydol y flwyddyn.

Mae eu tîm tec deallus wedi dyfeisio system ar-lein i archebu lle, er mwyn galluogi rhieni prysur i archebu lle i'w plant yn y clwb, ac i roi gwybod am unrhyw ofynion a dewisiadau sy'n bwysig i'r plant yn eu gofal.

Roedd yn ddigon addas i'n cyfarfod cyntaf gael ei gynnal yng nghwmni un o'n swyddogion hyfforddi yma yn Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Mrs Hayley Timms, a rannodd newyddion am y cyfleoedd hyfforddi gwych sydd ar gael yn rhan o'u haelodaeth o Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs.

Diolch i chi, Crossroads Sir Gâr, am ein gwahodd yno ac am yr arlwy hyfryd o gacenni!


*Janine (Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant Peripatetig, Gorllewin Cymru)*

## Dydd Chwarae Abertawe 2019

Gwnaeth Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs fod yn dyst i'r genhedlaeth nesaf o beirianwyr a dyfeiswyr yn Niwrnod Chwarae Abertawe yr haf hwn. Bu i gannoedd o deuluoedd ymweld â'r digwyddiad yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau er mwyn ymuno â'r gweithgareddau hwyliog ar gynnig. Rhoddodd Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs y cyfle i'r plant ymchwilio i electroneg. Gyda'u sgriwyrwyr a'u sisyrnau cafodd y plant dynnu'n ddarnau bysellfyrddau a thyrau cyfrifiaduron, socedi plwg a hyd yn oed hen hwfer cartref! Cafodd plant o bob oed, hyd yn oed mor ifanc â 2, y cyfle i weld sut beth oedd y tu mewn i gyfrifiadur, a chawsom ambell i fam-gu/thad-cu yn cymryd rhan! Cafodd pawb a gymerodd ran ddiwrnod arbennig!



## Cwrdd â'r Prentisiaid



**Dwedwch rywbeth wrthym amdanoch eich hun** Fy enw yw Hannah Davies ac rwy'n gweithio yng Ngorseinon. Rwy'n gweithio yn yr ysgol fel cynorthwyydd dysgu yn y clwb ôl-ysgol. Rwy'n mwynhau cymdeithasu, siopa a mynd am brydau gyda ffrindiau, ac rwyf hefyd wedi hyfforddi mewn amryw o therapïau harddwch megis ewinedd a lliw haul.

.

**Pam wnaethoch chi ddewis y cwrs?** Rydw i wedi ymrestru er mwyn symud ymlaen yn fy ngyrfa ac ennill cymhwyster Gwaith Chwarae yn fy rôl fel Arweinydd Chwarae.

**Beth ydych chi'n ei fwynhau fwyaf am y cwrs?** Rwy'n mwynhau popeth am y cwrs oherwydd ei fod wedi fy ngalluogi i archwilio fy sgiliau presennol fel Gweithiwr Chwarae a pharhau yn fy natblygiad proffesiynol. Mae'r ddamcaniaeth yr wyf wedi ei dysgu hyd yma wedi bod yn hawdd ei throsglwyddo i'r gweithle ac mae'n amlwg fod y plant wedi elwa o'r syniadau newydd yr ydym wedi eu rhoi ar waith.

**Ydych chi'n cael fod rhai agweddau ar y cwrs yn heriol?** Mae'n gallu bod yn heriol weithiau ond mae'r cwrs yn hyblyg iawn ac ar gyflymder sy'n addas i'r dysgwr.

**A fyddech chi'n argymell y cwrs?** Byddwn, byddwn i'n ei argymell i unrhyw un sydd am wneud y gorau o'r cyfleoedd dysgu y maen ei roi ac i symud eu gyrfa Gwaith Chwarae yn ei flaen.

**Beth fyddech chi'n ei ddweud wrth unrhyw un sy'n ystyried dechrau ar y cwrs?** Ymrestrwch! Rwyf wedi gwneud ffrindiau newydd hyfryd ar y cwrs. Ry'n ni i gyd yn helpu ac yn cefnogi ein gilydd ac mae hynny wir yn gweithio!

## Bwyd o Bobman

Cafodd Cynllun Chwarae Singleton yn Abertawe hwyl dros wyliau'r haf yn arbrofi â bwydydd o bedwar ban byd. Bob wythnos roedd y ffocws ar wahanol wlad, yn rhoi i'r plant y cyfle i roi cynnig ar fwydydd newydd na fyddent efallai wedi eu profi adref. Roedd yn syndod i weithwyr chwarae i weld pa mor anturus yr oedd y plant, yn enwedig wrth arbrofi â bwyd sbeisiog, a'u barn oedd mai'r ffaith bod y plant yn arbrofi o flaen eu ffrindiau a'u cyfoedion oedd yn gyfrifol am hyn. Fel ymarferwyr Gofal Plant a Chwarae gwyddom pa mor bwysig yw annog arferion bwyta iach o oed ifanc. Mae arbrofi â bwydydd newydd yn eich lleoliad yn ffordd wych o helpu plant i ddysgu am fwyd a'i fwynhau o oed ifanc.



# Gogledd Cymru



## Dathlu 30 o Flynyddoedd

Llongyfarchiadau i Glwb Ôl-ysgol TEMPS sydd wedi dathlu 30 o flynyddoedd o gynnig Gofal Plant Allysgol yn Wrecsam.

Yn ogystal â'r dathliadau mae TEMPS hefyd cael eu hariannu gan Gyngor Sir Wrecsam i gael ystafell ddosbarth allanol newydd. Cawsant help Maer Wrecsam a fu'n bresennol yn y dathliadau ac a 'dorrodd y rhuban' yn swyddogol i agor eu hystafell ddosbarth allanol newydd.

Da iawn TEMPS, gan edrych ymlaen at y 30 mlynedd nesaf.

## Clwb Y Morfa cael eu graddnodi'n Rhagorol

Llongyfarchiadau mawr i Glwb y Morfa, Abergele yng Nghonwy am ennill sgôr cyffredinol o 'rhagorol' yn eu harchwiliad Arolygiaeth Gofal Cymru diweddar. Maent yn Glwb â Rheolaeth Wirfoddol, Clwb Brecwast a Chlwb Gwyliau sydd wedi ei leoli ar dir Ysgol Glan Morfa. Mae Dolly Jones, y Rheolwr, wedi gweithio mor galed gyda'r clwb dros y deuddeng mis diwethaf ac yn falch iawn o'r holl staff. Meddai Dolly, "Rwyf mor falch fod ein holl waith caled wedi dwyn ffrwyth, mae'r staff yn gweithio mor galed ac mae'n braf cael cydnabyddiaeth o hynny."

## Clwb Newydd yng Nghonwy

Hoffai Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs estyn croeso cynnes i glwb sy'n ymaelodi o'r newydd; Clwb Dyffryn Yr Enfys.

Mae'r clwb yn Sefydliad Elusennol Corfforedig wedi eu lleoli mewn ysgol newydd, Ysgol Dyffryn yr Enfys, Dolgarrog, Sir Conwy, Rydym yn edrych ymlaen at gydweithio â nhw dros y misoedd i ddod.


**Angen cysylltu â ni?**

Cewch gysylltu â Thîm Gogledd Cymru drwy ffonio: 01492 536318,
drwy ebost: info-nw@clybiauplantcymru.org
trwy'r post: 19, Princes Drive,
Bae Colwyn. LL29 8HT


## Ebost diolch

Dyma lun o'r sied a'r palmant yr oeddem yn gallu eu mewnosod dros wyliau'r haf, diolch i grant gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs a haelioni un o'n teuluoedd a wnaeth roi'r sied i ni. Cafodd y palmantu ei wneud yn broffesiynol ond y staff, y rhieni a'r plant a adeiladodd y sied. Gallwn yn awr gadw'r holl deganau awyr-agored yma, sy'n golygu nad yw'n sied dan-do bellach yn orlawn, a does dim rhaid i ni ymlwybro i lawr i waelod yr iard i gael y sgwteri. Mae popeth yn haws cael gafael arnynt ac yn awr byddwn yn datblygu casgliad hyd yn oed yn fwy o deganau awyr-agored a rhannau rhydd.
Rydym wedi gallu cynyddu'r nifer o blant yr ydym wedi cofrestru ar eu cyfer o 16 i 24, a doedd dim rhaid i CIW hyd yn oed ddod allan i'n gweld.

Mae ein niferoedd yn dda iawn yn awr felly mae tri aelod o'r staff yma bob noswaith. Hyd yn oed os oes llai na 16 o blant, mae digon i dalu'n costau ac mae angen go iawn am dri aelod o'r staff yma.

Diolch am eich holl gefnogaeth.
(Y Clwb Ôl-ysgol, Conwy)





## Clwb Allysgol Deganwy yn ei Blodau



Cyn

Mae Clwb Allysgol Deganwy, Conwy wedi llwyddo i sicrhau grant gan Gyngor Tref Conwy i ddatblygu eu hardal allanol.

Mae'r ardal allanol tuag at gefn yr adeilad wedi ei hail-arwynebu â Thomwellt Rwber wedi iddo ddechrau dod yn berygl baglu wedi'r holl ddefnydd ohono.



Ar Ôl

I'r ochr o'r adeilad mae ardal fawr â ffens rhyngddi a'r plant a glaswellt hyd at eu canol. Mae Janet Smith (Rheolwr y Clwb), Nicky Roberts (Ysgrifennydd y Cwmni) ac ychydig o wirfoddolwyr wedi gweithio'n galed ochr yn ochr â Blooming Marvellous i ddylunio'r ardal newydd â phyllau tywod wedi eu tirlunio, gwelyau blodau uchel, cornel stori a gardd synhwyraidd.

Mae'r clwb wedi defnyddio'r ardal i ddatblygu'r ddau fan chwarae i'r plant, gan blannu perlysiau a blodau persawrus i ategu at synhwyrau'r plant, drych ar y wal, hopscotch lliwgar ar y llawr, caws llyffaint pren, clychau gwynt a hyd yn oed bolyn totem ac arno wahanol drychfilod, a'r cyfan wedi gwella'r ardal ymhellach ac annog y plant i gymryd eu llyfrau darllen allan i'r ardd i fwynhau'r ardal dawel. Mae'r defnydd o liw yn yr ardd yn effeithiol iawn ac yn bywiogi'r holl le. Mae'r plant wedi bod wrthi'n brysur yn paentio tai adar a thylwyth teg, sydd wedi eu harddangos ar waliau'r ardd, ac maent wedi rhoi rhai o'u hen wellingtons yn rhoddion i'w defnyddio fel potiau plannu.

Da iawn chi, Glwb Allysgol Deganwy, dyma ddarlun gwir o'r hyn y gellir ei wneud drwy waith caled ac ymroddiad; edrychwn ymlaen at ymuno â chi yn yr ardd cyn hir.

## Peilot Gwaith Chwarae Gwyliau'r Haf

Efallai i chi ddarllen yn ein rhifyn diweddaraf o'r Bont ein herthygl ar gynllun Peilot Gwaith Chwarae wedi ei ariannu gan Lywodraeth Cymru er mwyn mynd i'r afael â Gwyliau Llwglyd plant yng Nghymru. Nod y peilot oedd dangos y gall Clybiau Gofal Plant Allysgol cofrestredig gynnig ateb i Wyliau Llwglyd a sicrhau bod yr ariannu, os caiff ei barhau, yn cael ei ddosbarthu i Glybiau Gofal Plant Allysgol. Fe'i hanelwyd hefyd i ddangos nad oes angen am glybiau 'Gwyliau Llwglyd' a 'Bwyd a Hwyl' lle mae Clwb Gofal Plant Allysgol wedi ei gofrestru gydag AGC eisoes mewn bodolaeth (neu'n bosibl).

Gwnaeth Clwb Y Morfa, Abergele a Chlwb Brecwast, Ôl-ysgol a Gwyliau cyfrwng-Cymraeg dreialu'r cynllun yng Ngogledd Cymru gyda chydweithrediad Esgobaeth Llanelwy.

Roedd Mrs Jones, Rheolwr y Clwb, am gymryd rhan yn y peilot i roi cyfle i deuluoedd dan anfantais gael mynediad at leoliad wedi ei gofrestru gydag AGC dros wyliau'r haf, â staff cymwysedig yn darparu cyfleoedd chwarae cyfoethog na fyddent fel arall yn gallu'u cyrchu, a hefyd 3 phryd y dydd, ac un yn bryd poeth. Gweithiodd y clwb mewn cydweithrediad ag Esgobaeth Llanelwy, sydd wedi bod yn wych, yn cynnig i'r holl blant a fynychodd y Clwb Gwyliau becyn cinio o ansawdd uchel i gael gwared ar y gwarthnod o blant 'a ariennir'.

Mae'r peilot wedi bod yn llwyddiant, a 7 teulu wedi cael budd enfawr o'r prosiect. Mae'r plant wedi mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau, chwarae yn yr awyr agored, ac yn enwedig ar y beiciau a'r sgwteri na allant eu cyrchu gartref.

Mae un plentyn yn arbennig wedi blodeuo dros yr haf diwethaf, mae wedi dod allan o'i hun, wedi tyfu mewn hyder gydag oedolion a chyfoedion, ac wedi gwella ei hymddygiad drwy ddysgu pwysigrwydd cymryd eu tro.
Mae'r peilot wedi cael effaith enfawr ar y plant ac maent wedi bod ar eu hennill o fod mewn clwb. Maent wedi cael rhyng-gysylltiad cymdeithasol ag oedolion a'u cyfoedion, a chael cefnogaeth emosiynol ac anogaeth gadarnhaol mewn amgylchedd diogel.

Mae Mrs Jones wedi dweud, 'Dwi'n teimlo bod y prosiect ar y cyfan wedi bod yn llwyddiant o ran cyrraedd y teuluoedd cywir a rhoi i'r plant y cyfle i roi cynnig ar bethau newydd, bod yn rhan o glwb, cael bwyd iach dros yr haf a bod yn rhan o weithgareddau ysgogol.

Edrychwn ymlaen at glywed sut y byddwch yn dod yn eich blaen wedi i chi barhau'r prosiect dros hanner tymor mis Hydref.

## Enghraifft o Glwb Bywyd Gwyllt

Mae Ysgol San Siôr yn Llandudno, Conwy, cartref Clwb San Siôr, wedi cael dyfarniad â'r teitl 'Ysgol Enghreifftiol' am eu rhagoriaeth mewn gofal a'u dealltwriaeth o Natur a Bywyd Gwyllt.

Cafodd yr ysgol ymweliad gan Gronfa Bywyd Gwyllt y Byd (WWF) i arsylwi ar sut y mae'r plant yn gofalu am yr anifeiliaid a'r creaduriaid yn eu hysgol Mae'r WWF wedi cael argraff mor dda o wybodaeth a dealltwriaeth y plant o'r bywyd gwyllt yn yr ysgol ac yn y Byd, fel eu bod wedi penderfynu defnyddio'r ysgol fel ysgol enghreifftiol i eraill ymweld â hi a dysgu ganddi. Yn gyfnewid, mae'r ysgol wedi llwyddo i sicrhau dolen fyw barhaol o Goedwig Law'r Amazon i alluogi'r plant i weld a chlywed clipiau ffilm gwirioneddol o'r goedwig law a'r creaduriaid o'i mewn. Bydd y ddolen fyw hon yn dod â phrofiadau dysgu'n fyw i blant yr ysgol.

Mae gan Glwb San Siôr y cyfrifoldeb mawr o roi gofal a sylw i'r anifeiliaid a'r creaduriaid yn yr ysgol dros y gwyliau, ac maent wedi bod yn brysur iawn dros yr haf yn glanhau, bwydo a rhoi cyfle i'r amrywiaeth o anifeiliaid sy'n byw yn yr ysgol gael ymarfer eu cyrff.

Mae'r ysgol wedi cefnogi'r WWF ers nifer o flynyddoedd, ac yn ei theimlo'n fraint wirioneddol i fod wedi cael dyfarniad mor barchus gan y sefydliad.



# De Ddwyrain Cymru

## Cwrdd â'r Clwb

Yn rhan o adran newydd gyffrous o'n Cylchgrawn, Y Bont, rydym am i Glybiau Gofal Plant Allysgol fod â rhan yn hyn felly pa ffordd well i wneud hyn na chael adran "Cwrdd â'r Clwb", sy'n rhoi i chi gyfle i hyrwyddo'r gwaith gwych yr ydych yn ei wneud ac i ddweud wrthym ychydig bach amdanoch!







**Enw'r Clwb:** Kidz@Lullabyz

**Sir:** Casnewydd

**Beth yw eich Strwythur cyfreithiol:** Cwmni Cyfyngedig

**Pa Wasanaethau Gofal Plant ydych chi'n eu cynnig?:** Brecwast, Ôl-ysgol a Gwyliau

**Pryd wnaethoch chi agor?:** Hydref 2012

**Beth oedd yr her fwyaf i'ch lleoliad hyd yma a sut wnaethoch ei goresgyn?** Yr her fwyaf i ddechrau oedd recriwtio. Gan i ni fod yn lleoliad a oedd yn tyfu'n gyflym roeddem byth a hefyd yn hurio staff am y ddwy flynedd gyntaf, ac roedd ceisio dod o hyd i'r ymgeiswyr iawn yn dipyn o waith. Yn awr mae gennym weithlu sefydlog a dibynadwy ac mae hyn yn rhoi parhad i'r plant yn ein gofal.



**Beth yw'r peth gorau ynglŷn â gweithio mewn Clwb Gofal Plant Allysgol?:** Mae gennym feithrinfa yn ogystal â Chlwb Plant felly rydym yn gofalu am blant o 6 wythnos oed. Rydym yn falch iawn eu bod yn gallu parhau eu siwrnai gyda ni ac nid ein gadael pan fyddant yn dechrau'r ysgol yn 4. Cânt aros yn rhan o deulu Lullabyz hyd nes y byddant yn 12 mlwydd oed.

**Beth yw eich hoff atgof o'r Clwb?:** Ni'n dwlu pan fydd y rhieni'n cael stŵr am gasglu'r plant yn rhy gynnar. Byddwn ni'n aml yn clywed "NA! dwi ddim ond wedi dechrau chwarae" neu "Allwch chi ddod nôl nes ymlaen?" Dyna pan fyddwn ni'n gwybod ein bod ni'n gwneud gwaith da.

**Beth mae'r Plant yn hoffi ei wneud fwyaf pan fyddant yn eich clwb:?** Rydyn ni wedi ailwampio'r lleoliad yn ddiweddar, felly mae'r plant yn mwynhau chwilota ymysg yr holl gyfarpar ac adnoddau newydd. Maen nhw wedi dod i ymgolli gymaint yn eu chwarae fel bod Nanny Joy (arweinydd y clwb) yn teimlo nad oes mo'i hangen! Rydyn ni wedi dweud wrthi, 'os na allwch drechu, byddwch yn rhan', felly mae yn awr yn cael hwyl yn arbrofi gyda'r adnoddau newydd ei hunan. Fe wnaeth osodiad golau hyd yn oed allan o hen olwyn beic





### Angen cysylltu â ni?

Cewch gysylltu â Thîm De Ddwyrain Cymru
drwy ffonio: 029 2074 1000,
drwy ebost: info@clybiauplantcymru.org
trwy'r post: Tŷ'r Bont, Ffordd yr Orsaf,
Llanisien, Caerdydd. CF14 5UW





## Dathliad i ddysgwyr Meysydd Glo

Gwelodd mis Medi ddigwyddiad dathlu'r dysgwyr Meysydd Glo sydd wedi bod yn mynd yn eu blaenau drwy gymhwyster Dyfarniad Lefel 3 CACHE mewn Trawsnewid i Waith Chwarae (o'r Blynyddoedd Cynnar).

Mae 8 dysgwr wedi cwblhau'r sesiynau dysgu, ac i ddathlu campau'r dysgwyr fe wnaethant ymgynnull a chymryd rhan yn ein digwyddiad dathlu lle'r oeddent yn gallu parhau yn eu datblygiad proffesiynol drwy gyfrwng gweithdy Chwarae Allan gyda'r Elfennau. Fe wnaeth pob un o'r dysgwyr fwynhau'r cwrs a chawsom adborth hyfryd.

'Cefais y syniadau'n ddefnyddiol ac rwyf wedi rhoi llawer o syniadau i mewn i'm lleoliad. Ar sail y cwrs newidiais gynllun fy ardaloedd chwarae, ac ychwanegais weithgareddau newydd hefyd. Rwyf hefyd wedi rhoi gwybod i eraill y syniadau newydd ar gyfer chwarae wrth symud ymlaen. Fe wnes wir fwynhau'r cyfnewid o syniadau a gwybodaeth. Hefyd mae pawb wedi bod yn hyfryd ac yn ysbrydoledig!"

Da iawn bawb!

## Dyma beth mae Clwb yn ei Olygu i Mi

*Betsi Nicholls, oed 9*
*- Clwb Carco Ysgol Melin Gruffydd, Caerdydd*

"Y peth rwy'n ei fwynhau fwyaf am fynd i glwb ôl-ysgol yw chwarae y tu allan! Ry'n ni'n dwlu rhedeg o gwmpas, dringo'r coed ac eistedd i siarad yn y cysgod. Y diwrnod o'r blaen, pan o'n ni'n chwarae deniau, fe wnaethon ni ddefnyddio'n cotiau a'r rac beiciau. Fe wnes i a'm ffrind Izzy aros yn sych pan gafodd pawb arall sociad! Mae coeden i'w dringo, a dwi a'm ffrindiau yn dringo i fyny a jocan bod yn ddau deulu gwahanol yn mynd ar eu gwyliau gyda'i gilydd, y teulu anghyfrifol a'r teulu cyfrifol. Ry'n ni'n ei hoffi orau pan fydd yr oedolion jyst yn ein gadael i fod i chwarae, achos dy'n nhw ddim wastad yn deall y gemau yr y'n ni'n eu chwarae."

*Os hoffai plentyn o'ch Clwb Gofal Plant Allysgol fod yn ein rhifyn nesaf o'r Bont, cysylltwch â'ch Swyddfa Ranbarthol!*

## Llongyfarchiadau, Simply Out of School!

Wedi misoedd o waith caled, llwyddodd Simply Out of School Llanahran i ennill eu cofrestriad gydag AGC. Mae cofrestru wedi golygu eu bod hefyd wedi gallu ymestyn i gynnig gwasanaeth amlapiol i gefnogi dosbarth meithrin yr ysgol.

Da Iawn Simply!

## Croeso i Rondda Cynon Taf!

Agorodd Fern Federation a Jaks yn Hawthorn ddrysau eu Clybiau Ôl-ysgol newydd y tymor diwethaf. Roeddent yn ffodus iawn i fod wedi llwyddo yn eu ceisiadau am Grantiau Lleoedd Newydd gan yr Awdurdod Lleol, a olygodd y gallent brynu adnoddau cyffrous i'r Plant eu mwynhau. Dymunwn y gorau iddynt yn eu hanturiaethau newydd!

## Llwyddo i gael Arriannu


Llongyfarchiadau i Ganolfan Gofal Plant a Theuluol Trinity ym Merthyr Tudful ar lwyddo yn eu cais i Sefydliad Moondance. Mae Trinity yn Elusen Gofrestredig ac yn Gwmni a Gyfyngir trwy Warant, sy'n cynnig gofal plant o ansawdd mewn cyn-gymuned lofaol, sydd â gwahaniaethau o ran yr economi ac iechyd, o'i chymharu â gweddill Cymru. Mae Trinity wedi ei chofrestru gydag AGC i ddarparu gofal plant ar gyfer hyd at 52 o blant o 17-wythnos i 12 mlwydd oed drwy amrediad o wasanaethau y mae eu taer hangen, yn cynnwys Meithrinfa Ddydd, Darpariaeth Cyn-ysgol, Cylch Meithrin, Clwb Brecwast, Clwb Ôl-ysgol a darpariaeth Gynhwysol. Mae'r lleoliad yn darparu lleoedd ar gyfer Teuluoedd Dechrau'n Deg, mae wedi ei gofrestru i gynnig y Cynnig Gofal Plant ac y mae'n ddarpariaeth cwbl gynhwysol, a hwythau wedi cyflawni'r 'Cynllun Cynhwysiant Oren i Wyrdd' Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

Fel yn achos sawl darpariaeth â Rheolaeth Wirfoddol, mae'r staff yn Trinity wedi gorfod gweithio'n galed i atgyfnerthu ei gynaliadwyedd yn gyson, er mwyn galluogi parhad yn y gwasanaethau a brisir yn fawr. Bydd y dyfarniad o arriannu gan Sefydliad Moondance yn cefnogi'r gwasanaethau hyn i ddal i ddod â budd i'r gymuned leol.

**Llongyfarchiadau!**

# Hyfforddiant

## Esblygiad Chwarae – Cylch Chwarae Rhan 1




Yn ddiweddar bûm yn darllen yr ymchwil a gwblhawyd gan Dr Pete King a Dr Shelly Newstead ac a gyhoeddwyd ynThe Play Cycle - Theory Research and Application (King a Sturrock 2019). Yr hyn a gefais yn ddiddorol oedd y sylweddoliad mai cyfyngedig fyddai'r achosion o Weithwyr Chwarae'n darllen Papur Colorado; darganfyddwyd gan yr ymchwil fod y Gweithwyr Chwarae â'r lleiaf o brofiad (llai na 7 mlynedd) yn debygol o fod heb ddarllen y Papur, hyd yn oed os oeddent wedi'u cymhwyso hyd at Lefel 3. Nid yw hyn yn gyfystyr â dweud nad oeddent yn ymwybodol o'r Cylch Chwarae, ond eu bod yn dod o hyd i'w gwybodaeth o ffynonellau eilradd. Cadarnhaodd yr ymchwil drafodaethau sydd wedi digwydd yn Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs lle gwnaethom drafod yr angen am ysgrifennu erthygl ar Y Cylch Chwarae. Yn dilyn yr adolygiad o'r ymchwil rydym wedi penderfynu adeiladu ar ein syniadau gwreiddiol a chreu cyfres fer.

Papur Colorado, a ysgrifennwyd gan y diweddar Gordon Sturrock a Perry Else yn1998 a gyflwynodd y term, Y Cylch Chwarae. Wrth ddisgrifio eu hymchwil awgrymodd Sturrock ac Else nad pwrpas y wybodaeth oedd rhoi cyd-destun newydd i Waith Chwarae na chyflwyno damcaniaethau newydd, ond i roi mewn geiriau ac egluro'r hyn a oedd yn digwydd eisoes. Yn rhan o'r gwaith a wnaed i wneud synnwyr o arferion Gwaith Chwarae, gwnaed adolygiad ar a ganfuwyd yn "gylch ddolennog chwarae" ac am y tro cyntaf rhannwyd hyn yn gydrannau a alluogodd gwell dealltwriaeth o chwarae a rôl y Gweithiwr Chwarae; gan greu'r pedwar cam, fel yr isod:

- Metaliwd/gyriant a chiw chwarae
- Terfyniad, dadfeiliad neu ddifodiad
- Datblygiad Gweithiol
- Dolennu a Llifo

Er bod y Cylch Chwarae wedi datblygu rywfaint o ran sut y mae'n edrych, a'i fod wedi ei rannu'n ddarnau, mae'r ddamcaniaeth ei hun yn aros heb ei newid. Mae Papur Colorado yn rhan hanfodol o'u darllen, i'w helpu i gael dealltwriaeth dda o Chwarae a Gwaith Chwarae. Bydd yr erthygl nesaf yn y gyfres fer hon yn Y Bont yn edrych ar y Cylch Chwarae ar waith. Efallai y byddech am edrych yno gystal ar yr erthygl ar chwarae yn Rwmania lle trafodir ac adlewyrchir ar Giwiau Chwarae ymhellach.

Os ydych am ddarllen Papur Colorado, gwelwch safle yma: https://ipaewni.files.wordpress.com/2016/05/colorado-paper.pdf

## Gwneud i T.G. Weithio

Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs wedi datblygu gweithdy newydd i atgyfnerthu swyddogaethau rheoli lleoliadau gofal plant a gwaith chwarae.

Mae'r gweithdy **Gwneud i T.G. Weithio** yn canolbwyntio ar y defnydd o dechnoleg i liflinio gweithrediadau busnes. Wedi ei anelu at berchnogion a rheolwyr, bydd y gweithdy ymarferol yma'n rhoi i gyfranogwyr y profiad uniongyrchol o sut i ddefnyddio gwahanol dechnolegau i wneud prosesau pob dydd yn fwy effeithlon ac effeithiol.

Bydd y gweithdy hefyd yn rhoi i gyfranogwyr ddealltwriaeth o sut y gall pobl gael mynediad i'w gwasanaethau a sut i reoli diogeled y systemau a'r gwasanaethau hyn.

I wybod sut y gall technoleg roi hwb i'ch busnes chwiliwch am gyrsiau sy'n agos atoch.



## Cymhwyster CCPLD newydd

Efallai y byddwch yn gwybod bod cymhwyster newydd ym maes gofal plant wedi ei lansio ym mis Medi. Mae'r cymhwyster, sy'n dwyn y teitl Gofal Plant Chwarae Dysgu a Datblygu (CCPLD) yn cadarnhau pwysigrwydd chwarae a sut y mae'n gymorth i blentyn symud yn ei flaen a thyfu. Mae'r cymhwyster hwn yn gwbl wahanol i'r hen Gofal Dysg a Datblygiad Plant (CCLD) ac y mae'n sicrhau bod dysgwyr yn cael eu hyfforddi fel rhan o graidd y cymhwyster ac yn gosod tasgau y mae angen eu cyflawni. I atgyfnerthu ansawdd a pharhad ymhellach mae asesiadau allanol wedi eu cyflwyno, ynghyd â thynnu ymaith y gallu i ddefnyddio tystiolaeth neu gredydau o gymwysterau blaenorol.

Ers lansio Gofal Plant, Chwarae, Dysgu a Datblygu (GPChDD) gofynnwyd inni a oedd hyn yn golygu na fyddai'n angen bellach i feddu ar ddau gymhwyster. Yr ateb i hyn yw na! Os ydych yn gweithio ym maes Gofal Plant Allysgol bydd angen cymhwyster Gwaith Chwarae arnoch o hyd, gan nad yr un peth yw Chwarae a Gwaith Chwarae. Mae gan Chwarae ddiffiniad amrywiol ac mae'r ffordd y mae Chwarae'n cael ei gefnogi yn cael ei ffurfio gan y damcaniaethau a'r ddealltwriaeth o wahanol safbwyntiau. Mae Gwaith Chwarae ynglŷn â mwy na sut y diffinnir chwarae; y mae ynglŷn â sut i feithrin gyriant mewnol plant i chwarae, sut i ymateb i giwiau chwarae a hefyd sut i greu man Chwarae sy'n meithrin Chwarae sydd wedi ei ddewis yn ddigymell. Felly, os yw Gweithiwr Chwarae'n cwblhau Lefel 3 mewn GPChDD bydd angen iddyn nhw gwblhau'r Dyfarniad Lefel 3 mewn Trawsnewid i Waith Chwarae (o'r Blynyddoedd Cynnar). Y newydd da yw bod rhai darparwyr yn cynnig y ddau gwrs gyda'i gilydd fel y gall y rhai sy'n cwblhau'r cymhwyster newydd gael y cyfle i ennill y ddau gymhwyster fel rhan o'u prentisiaeth. Mae'n bwysig, os ydych yn dechrau prentisiaeth GPChDD a'ch bod hefyd angen cymhwyster mewn Gwaith Chwarae, eich bod yn gofyn a yw'r llwybr yma ar gael, ac a yw'n cael ei gyflenwi gan staff sydd â phrofiad diweddar o Waith Chwarae. Mae hefyd, o hyd, yr opsiwn o ddewis y Cymwysterau Gwaith Chwarae annibynnol os ydych yn gweithio ym maes Gofal Plant Allysgol. Os nad ydych yn siŵr pa opsiwn sy'n iawn i chi, gallwch ein ffonio/e-bostio, neu gysylltu â'ch Arolygdd AGC.





## Gweithdy Clwb Ymwybyddiaeth o Gymorth Cyntaf

Gweithdy ymarferol i blant yw'r Gweithdy Clwb Ymwybyddiaeth o Gymorth Cyntaf, sy'n eu helpu i ddeall pa risgiau sydd ym mywyd pob dydd, a sut y gallant gadw'u hunain ac eraill o'u cwmpas yn ddiogel petai damwain yn digwydd.

Bydd y gweithdy'n edrych ar ba bethau a allai achosi damweiniau ac anafiadau, wrth roi i blant gyfleoedd i ymarfer dulliau cymorth cyntaf sylfaenol, a gweiddio'r hyder ynddynt i ymdopi ag unrhyw ddamweiniau petai'n rhaid iddynt.

Mae'r Gweithdy Clwb Ymwybyddiaeth o Gymorth Cyntaf ar gael i'w brynu i'ch clwb. I gael gwybodaeth bellach cysylltwch â'ch swyddfa leol.

## Adeiladu Deniau ..........

Yn ddiweddar cynhaliodd dau o'n swyddogion hyfforddi weithdy Adeiladu Deniau i ymarferwyr gofal plant yn RhCT. Roedd yn llwyddiant ysgubol, a digonedd o hwyl a chwerthin.

Yn ystod y gweithdy trafododd ymarferwyr ym mhle y cawsant adnoddau cost isel/dim cost; ymhlith y syniadau y gwnaethant eu rhannu yr oedd:

- Siopau Elusen
- Busnesau lleol
- Rhieni/Teuluoedd
- Canolfannau Ailgylchu
- Gofyn i'r gymuned drwy'r cyfryngau cymdeithasol

Hefyd, fe wnaethom ofyn i'r ymarferwyr ystyried sut yr oeddent yn teimlo wrth adeiladu'r deniau; pwrpas hyn oedd eu cael i feddwl am deimladau y gallai plant eu cael wrth adeiladu deniau mewn clybiau. Gwelir isod rai o'u hatebion.

- Dyfeisgar
- Wedi cyffroi
- Cystadleuol
- Hapus
- Synnwyr o gyflawniad
- Boddhad
- Bodlon





**Mae Adeiladu Deniau'n chwarae rhan allweddol yn chwarae plant. Mae'n helpu plant i ddatrys problemau, gweithio fel tîm, bod yn flaengar, defnyddio'u dychymyg, defnyddio rhannau rhydd, ymhlith llu o bethau eraill.**

Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn brofiadol ym maes datblygu a chyflenwi gweithdai a chymwysterau i wella ansawdd y gofal, y chwarae a'r dysgu a ddarperir i blant mewn clybiau. Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn ganolfan a gymeradwyir gan y Sefydliad Dyfarnu, CACHE, i gyflenwi cymwysterau achrededig mewn Gwaith Chwarae ac Asesu. Am wybodaeth bellach am ein cyrsiau a sut i gadw lle, ewch at:

www.clybiauplantcymru.org/cymraeg/training-events.asp

# Cymraeg Gwaith

## Prosiect Cymraeg Gwaith – Asesiad o'r Lleoliad



Yn rhan o'n prosiect Cymraeg Gwaith rydym yn teithio ar hyd a lled y wlad i hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o'r Iaith Gymraeg mewn Clybiau Gofal Plant Allysgol. Rydym ar ben ein digon gyda'r ymatebion o'n clybiau ardderchog ac yn gobeithio gallu defnyddio'r wybodaeth yma i annog mwy o leoliadau i roi cynnig arni.

Yn rhan o'r hyfforddi rhagarweiniol, byddwn - ochr yn ochr â chyrsiau Cymraeg CAMAU- yn cynnal sesiynau cefnogi datblygiad yn y Gymraeg. Cam cyntaf y broses honno yw'r asesiad cychwynnol. Nod y sesiwn cyntaf yma yw cael syniad o'r lefel bresennol o ddealltwriaeth, defnyddio a hyrwyddo'r Iaith Gymraeg mewn lleoliad. Gwelir isod rai enghreifftiau o'r atebion a gafwyd gan leoliadau hyn yn hyn;

- **A yw plant yn cael cyfle i wneud marciau/gwaith ysgrifenedig drwy gyfrwng y Gymraeg?**

'Ie, lluniadau mewn sialc y tu allan a defnyddio darluniau ac adnoddau o wefan Twinkle.' (Erfyn adnodd poblogaidd, dwyieithog yw hwn, sy'n cael ei ddefnyddio gan ysgolion ar hyd a lled y wlad. Ymhlith eraill y mae TES, nad oes angen tanysgrifio iddo, ac mae llawer o adnoddau ar gael ynddo yn rhad ac am ddim.)

- **A yw'r adnoddau Cymraeg, h.y. llyfrau, taflenni caneuon, yn cael eu rhannu â theuluoedd?**

'Nac ydyn. Dydy'r teuluoedd ddim yn gofyn, a does gennym ni ddim yr adnoddau na'r amser i wneud popeth yn ddwyieithog os nad yw'r teuluoedd eu heisiau.'

'Gallwn wneud yr un o'r ddau, ond fel arfer fyddwn ni ddim yn argraffu popeth yn ddwyieithog er mwyn arbed papur.'

- **A yw plant yn cael y cyfle i ddod i wybod am Gymru a'i diwylliant?**

'Ydyn, rydym yn mynd ar dripiau i barc Margam, ac yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi, yn dilyn cwpan y byd ac wrth gwrs, Dydd Santes Dwynwen yn lle Sant Ffolant.'

'Ydyn, tripiau i gastell Penfro, amgueddfa'r cwch ehedog a chastell Caeriw.'

Mae'n bwysig cofio bod pob lleoliad yn dra gwahanol i'w gilydd, a byddwn yn defnyddio gwahanol ddulliau o gyflwyno Cymraeg yn eu lleoliadau; nid peth drwg mo hyn! Gall fod yn beth da iawn, yn enwedig pan fydd lleoliadau'n mynd ati i rannu, hyrwyddo a chynyddu'r dysgu hwnnw.

Mae'n werth nodi bod sawl uno'r atebion hyn wedi dod, gan fwyaf, oddi wrth glybiau iaith-Saesneg. Maent yn awyddus, ac yn mynd ati i hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn eu lleoliadau, ond maent weithiau'n brin o'r hyder a'r sgiliau i ymestyn hynny ymhellach i faes polisi/gweithdrefn ac ymgysylltiad y teulu. Dyma faes y byddwn yn edrych i mewn iddo'n fanylach dros y misoedd i ddod, gan ganolbwyntio ein hymdrechion ar gynyddu dealltwriaeth a chynorthwyo clybiau i ddatblygu mwy o hyder yn y meysydd hyn.

Mae'n gwbl glir fod clybiau'n edrych ymlaen yn eiddgar at roi tro ar yr iaith, ac yn awyddus i annog ei gilydd. Profwyd bod cynnydd yn y defnydd o eiriolwyr y Gymraeg mewn lleoliadau wedi cynorthwyo dysg a datblygiad, a gallai hyn fod yn rhywbeth y byddwn yn ceisio'i wneud yn y dyfodol, ac a fydd yn gymorth i ddod â Chymru'n agosach at filiwn o siaradwyr erbyn 2050.

Os oes gan eich lleoliad chi syniadau ar sut orau i hyrwyddo'r iaith Gymraeg mewn darpariaethau Gofal Plant Allysgol, mae croeso i chi gysylltu â ni ac fe wnawn rannu cymaint ag a fedrwn ohonynt yn rhifynnau'r dyfodol o'r Bont.

Mae prosiect Cymraeg Gwaith yn rhedeg ochr yn ochr â phrosiect CAMAU: mae'n cynnwys hyfforddiant sy'n anelu at gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a hyder ynddi, yn yr holl leoliadau Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae. Am fwy o wybodaeth am gyfleoedd i hyfforddi, cysylltwch â'ch swyddfa leol o Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, bydd ein tîm yn barod iawn i'ch helpu.

Cymraeg

## Disgrifiadau Lefel

Mae Camau wedi darparu rhestr ddefnyddiol o ddisgrifiadau o gyrsiau sydd ar gael ar hyn o bryd drwy'r prosiect.

**Lefel Mynediad**
Nod y cwrs ydy galluogi ymarferwyr gofal plant a blynyddoedd cynnar nad ydynt yn medru'r Gymraeg o gwbl i gyflwyno patrymau Cymraeg syml yn eu gwaith bob dydd gyda phlant dan 5.

**Lefel Mynediad (Chwarae)**
Nod y cwrs ydy galluogi ymarferwyr yn y sector chwarae nad ydynt yn medru'r Gymraeg o gwbl i gyflwyno patrymau Cymraeg syml yn eu gwaith bob dydd gyda phlant a phobl ifanc.

**Lefel Sylfaen**
Nod y cwrs yw galluogi ymarferwyr gofal plant a blynyddoedd cynnar nad ydynt yn meddu ar lawer o Gymraeg i gyflwyno patrymau Cymraeg elfennol a rhoi arweiniad priodol yn y Gymraeg yn eu gwaith bob dydd gyda phlant dan 5 mlwydd oed.

**Lefel Canolradd**
Nod y cwrs ydy galluogi ymarferwyr gofal plant a blynyddoedd cynnar sy'n meddu ar rywfaint o Gymraeg i gyflwyno patrymau Cymraeg ymestynnol a rhoi arweiniad priodol yn y Gymraeg yn eu gwaith bob dydd gyda phlant dan 5.

**Lefel Uwch**
Nod y cwrs ydy galluogi ymarferwyr gofal plant a blynyddoedd cynnar sy'n medru'r Gymraeg i gyflwyno patrymau Cymraeg gweddol ddatblygedig a rhoi arweiniad priodol yn y Gymraeg yn eu gwaith bob dydd gyda phlant dan 5.



# Codi Hwyl wrth Godi Arian

**Gweithdy Crefft y Gaeaf** Beth am gynnal gweithdy crefftau; codwch ffi mynediad i dalu am ddeunydd a chaglwch roddion. Gwnewch addurniadau Nadolig, trefnwch dorchau, pobwch fisgedi; bydd digwyddiad crefftau'n atyniad i deuluoedd sy'n edrych am brynhawn o hwyl.

Os oes grŵp ymroddgar o grefftwyr lleol yn eich tref, beth am gynnal gweithdy crefft lle bydd gofyn am sgiliau crefft sylfaenol, ond gall y rhai'n bresennol ddewis a dethol yr eitemau y byddant yn eu gwneud.

**Cystadleuaeth Tŷ Bara Sinsir** Mae cynnal Cystadleuaeth Gwneud Tŷ Bara Sinsir yn ffordd hwyliog a syml o godi arian dros y gaeaf – gofynnwch i bobl dalu i gymryd rhan a rhowch wobr bychan i'r enillydd (gan gadw'r elw i'ch codwr arian)!

**Gwerthwch Fasgedi Rhodd ar gyfer Dydd Santes Dwynwen,** diwrnod mwyaf rhamantus y flwyddyn yng Nghymru. Gwnewch a gwerthwch fasgedi rhodd "dyddiad" unigryw gydag eitemau y gall cyplau eu mwynhau – caws a gwin, coffi arbennig a siocledi, popcorn a thalebau sinema, neu dun cacenni ar siâp calon gyda'r cynhwysion sydd eu hangen i bobi gyda'i gilydd.

**Grant Gofal Plant Llywodraeth Cymru** Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio Grant Gofal Plant newydd er mwyn hwyluso creu lleoedd gofal plant hyblyg, ychwanegol drwy Gymru gyfan. Mae dau grant yn y cynllun, er mwyn galluogi darparwyr newydd a phresennol i gynyddu'r nifer o leoedd gofal plant ar draws Cymru.

Agorwyd y ceisiadau am ariannu ar Ddydd Llun, Medi'r 30ain 2019. Mae Grantiau Gofal Plant Busnes Cymru yn agored i geisiadau hyd at **Fawrth 31ain 2020 (Grant Gofal Plant – Busnes Newydd)** a hyd at **Awst 31ain 2020 (Grant Gofal Plant – Gweithwyr Newydd (a bod yr ariannu'n caniatáu hynny).**

**Grant Gofal Plant – Busnes Newydd**
Mae'r grant hwn, sy'n cael ei gynnig i annog gwarchodwyr plant newdd i ymuno â'r sector, yn cynnig cymorth ariannol i helpu gyda rhai o'r costau sy'n gysylltiedig â dechrau busnes gofal plant.

**Grant Gofal Plant – Busnes Newydd**
Nod y grant hwn yw annog creu swyddi newydd ar draws y sector gofal plant. Y mae'n cynnig arian i gynorthwyo gyda chyflogai a gorbenion tra caiff lleoedd gofal plant ychwaengol eu llenwi.

I wneud cais, rhaid i ymgeiswyr:
- gofrestru gyda Busnes Cymru
- fod wedi eu cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ar adeg talu'r grant
- fod yn gallu dangos y bydd yr ariannu'n cyfrannu at gynyddu'r nifer o leoedd gofal plant hyblyg yng Nghymru.

Os hoffech unrhyw gefnogaeth bellach, neu arweiniad ar: ddarparu tystiolaeth glir o'r angen am ddarpariaethau gofal plant ychwaengol yn eich ardal chi, neu ar gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), yna peidiwch â phetruso rhag cysylltu â'ch Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant lleol yma yn Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, a fydd yn barod iawn i'ch helpu gyda'r broses yma.

Gellir cael hd i wybodaeth bellach ar sut i gwblhau'r cais a chyflwyno'r ddogfennaeth ofynnol drwy wefan Busnes Cymru.

Os yw'ch busnes, neu'ch awgrym am fusnes, eisoes yn cyfateb â'r meini prawf ar gyfer y grantiau hyn, a'ch bod yn teimlo'n hyderus i wneud cais heb gefnogaeth ychwanegol oddi wrthym ni, yna cysylltwch â Busnes Cymru ar 03000 603000 i gofrestru.

## Cefnogwch Ni wrth inni'ch Cefnogi Chi!

Nid yw siopa ar-lein drwy www.easyfundraising.org.uk/clybiauplantcymrukidsclubs yn costio ceiniog yn ychwanegol, ond y mae'n caniatáu i ni dderbyn hyd at 15% o bob pryniant a wnaed o'r 400+ o siopau a restrir, gan olygu y bydd gennym fwy o arian i barhau i gefnogi clybiau megis eich clwb chi.



## e-newyddion

Fel aelod-glwb cewch afael ar ôl-rifynnau ein bwletinau e-newyddion yn ardal aelodau ein gwefan, sef www.clybiauplantcymru.org ac os oes gennym gyfeiriad ebost ar eich cyfer, anfonir rhifynnau o'r Bont i'r dyfodol atoch yn uniongyrchol. Anfonwch eich manylion ebost imembership@clybiauplantcymru.org er mwyn sicrhau eich bod yn derbyn eich copi electronig.


Out of School
Yswiriant ALL-YSGOL i glybiau all-ysgol



Gostyngiad o tua
**15% i aelodau**
Clybiau Plant
Cymru Kids'

Mae yswiriant All-Ysgol wedi ei gynllunio'n arbennig i glybiau al-ysgol sy'n darparu gweithgareddau cyn ac ar ôl oriau ysgol.

Am fwy o wybodaeth ewch i
**www.mortonmichel.com/outofschool**
e-bostiwch
**outofschool@mortonmichel.com**
neu ffoniwch
**020 8603 0943**

Morton Michel
The **Childcare Insurance** Specialist

Awdurdodir a Rheoleiddir Morton Michel Cyf ('Morton Michel') gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol

# Prosiectau

## Sut Mae'ch Gardd yn Tyfu?

Yn 2017 dyfarnwyd ariannu i Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs drwy Groundworks, Bagiau Cymorth Tesco, i ddatblygu a threialu 10 gweithgaredd dwyieithog cost isel/dim cost wedi eu dylunio o gylch sut i ddefnyddio defnyddiau wedi'u hailgylchu i ddatblygu gwagle mewn gardd gan adeiladu perthnasoedd rhwng y cenedlaethau, ymwybyddiaeth gymunedol a pharch tuag at eraill.

Datblygwyd y gweithgareddau. Treialodd ein Swyddog Hyfforddi y gweithgareddau gyda staff a phlant Darparwyr Gofal Plant Ynys Môn a Chlwb Gwyliau st Mary's. Drwy adborth o'r peilot a mewnbwn gan staff Clwb San Siôr, Conwy, diwygiwyd y cardiau gweithgaredd.

Yn anffodus, ni ddyfarnwyd digon o arian i Cybiau Plant Cymru Kids' Clubs i gwblhau'r prosiect.

Ac ariannu gan Ddarparwyd Gofal Plant Ynys Môn, roedd modd i ni gwblhau'r prosiect. Hoffem gymryd y cyfle hwn i ddiolch i Ddarparwyr Gofal Plant Ynys Môn, sydd wedi bod yn rhan annatod o'r prosiect hwn ers ei ddechreuad.

Defnyddiwyd yr ariannu hwn i ddylunio cardiau gweithgaredd **Sut Mae'ch Gardd yn Tyfu?** A chyflwynwyd y gweithgareddau terfynol i'r lleoliad.

Anelwyd y gweithgareddau at blant 3 i 11 mlwydd oed, gan ganolbwyntio ar ddatblygu sgiliau newydd cysylltiedig â garddio, yr amgylchedd ac ailgylchu drwy gyfrwng gweithgareddau hwyliog ac ymgysylltiol. Cwmpesir amryw o bynciau, yn cynnwys sut i greu mannau awyr-agored bychain, ailgylchu pethau i wneud tai gwydr a photiau plannu, a sut i wneud compost. Hefyd, mae'r gweithgareddau'n annog plant i ddysgu am bwysigrwydd tyfu eu bwyd eu hunain gan ennill gwybodaeth a sgiliau gan bobl fwy profiadol o'u cwmpas.

Ein Swyddog Hyfforddi, Tracey Bargh a gyflwynodd y gweithgareddau a'r cardiau newydd, gwell, i Ddarparwyr Gofal Plant Ynys Môn.

Gwerthuswyd y gweithgareddau newydd, gwell hyn wedi'r sesiwn. Allan o sgôr o 5 (1 = gwae; 5 = rhagorol) roedd y ddau Weithiwr Chwarae o'r farn i gynnwys, strwythur a threfn yr hyfforddi fod yn dda, a rhoesant sgôr o 5 i ni; hefyd fod yr Hyfforddwr wedi esbonio gam wrth gam i'r plant yr hyn yr oedd angen iddynt ei wneud mewn ffordd ddiogel a hwyliog; roedd y cyflymder yn berffaith a'r hyfforddi'n addas i'r holl blant mewn gwahanol grwpiau oed. Gwnaeth pawb ei fwynhau, yn enwedig defnyddio'r gwahanol offer.

Fe wnaeth y staff hefyd y sylw fod yr hyfforddwr wedi rhoi syniadau da iddynt, ac roeddent yn awyddus i barhau gyda'r prosiect ac ymgysylltu â'r gymuned leol drwy ddod at ei gilydd blant a Gweithwyr Chwarae o Ddarparwyr Gofal Plant Ynys Môn, Clwb Gofal Plant Allysgol St Mary's a gwirfoddolwyr garddio o'r gymuned leol i weithio gyda'i gilydd i ddatblygu'r man y tu allan i adeilad y clwb.



## Grantiau Canmlwyddiant Tesco

Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs wedi llwyddo i gael dau gais am ariannu ar gyfer Prosiect newydd, cyffrous, drwodd i'r cam pleidlais gyhoeddus ar gyfer Cronfa Canmlwyddiant Tesco. Bydd gan bob siop Tesco ar hyd **De Ddwyrain Cymru, Canol** a **Gorllewin Cymru** ardal bleidleisio ar gyfer Cronfa'r Canmlwyddiant, lle gall siopwyr ddewis rhwng 3 Prosiect i benderfynu ar y lefel o ariannu a dderbynnir ar gyfer pob prosiect unigol.

**Ein Prosiect**
Bydd y prosiect yn gwella iechyd a llesiant plant ar hyd rhanbarthau De-ddwyrain, Canolbarth a Gorllewin Cymru drwy weithgareddau tyfu bwyd iach a gweithgareddau paratoi, mewn ffordd ymarferol a chymunedol, a fydd yn llawn hwyl ac yn rhoi boddhad.

Byddem yn datblygu cynllun 'Tyfu'ch Gwledd eich Hun', yn gysylltiedig â Chlybiau Gofal Plant Allysgol (sy'n cynnig gofal o ansawdd da i blant 3-14 blwydd oed), gwirfoddolwyr, teuluoedd a'r gymuned ehangach. Bydd plant y tu allan, yn tyfu, cynaeafu ac yn coginio eu gwledd faethlon eu hunain, yn dysgu amrediad eang o sgiliau newydd gan wirfoddolwyr h a phrofiadol, yn ogystal â hyrwyddo iechyd meddyliol a llesiant i bawb a fydd â rhan yn hyn. Bydd adnoddau a sesiynau hwyliog, rhyngweithiol yn adeiladu hyder a gwybodaeth y plant a'r Gweithwyr Chwarae fel y gallant wneud dewisiadau iach ynghylch bwyd drostynt eu hunain.

**Sut gallwch chi helpu?**
Gwyliwch am y gorsafoedd pleidleisio yn eich siop Tesco leol pan fyddwch wrth eich siopa wythnosol, a phleidleisiwch dros Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs i'n galluogi i gynorthwyo Clybiau Gofal Plant Allysgol a chymunedau ar hyd a lled Cymru drwy'r Prosiect cyffrous yma! Rhannwch hyn gyda'ch ffrindiau a'ch teulu i'n helpu i gynyddu'n pleidleisiau!

Bydd gorsafoedd pleidleisio dros Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs mewn siopau o **Hydref 1af 2019 hyd at Ragfyr 31ain 2019**. Gwerthfawrogir eich cefnogaeth yn fawr!






## Cwrdd â'r Tîm!



**Enw:** Nenie Anetekhai

**Teitl y Swydd:** Gweinyddwraig

**Ers pa bryd ydych chi wedi bod yn gweithio i Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs?** Ers Medi 2019.


**Beth yw eich hoff atgof o'ch plentyndod?** Mae gen i nifer ohonynt, yn ymwneud â thraddodiadau yn bennaf, a dwi'n dal i'w gwneud. Dwi'n meddwl mai fy hoff rai yw o gylch y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, pan fydd pob aelod o'r teulu'n mynd i dŷ tad-cu am dymor y gwyliau; mae llawer o goginio, gweddïau, mynd allan, gemau, cerddoriaeth a lot o hwyl.

**Beth ydych chi'n hoff o'i wneud yn eich amser sbâr?** Gorffwys, cysgu, ffilmiau a threulio amser gyda fy nheulu a ffrindiau.

**Os gallech gael arch-bŵer, beth fyddai a pham?** Byddwn yn gwella'r byd oherwydd bod llawer o bobl mewn poen am sawl rheswm, y tu mewn a'r tu allan.

**Beth fyddai pobl yn synnu o'i glywed amdanoch?** Yn yr ysgol gynradd, am nad oedd Geidiau yn yr ysgol fe wnes i ymuno â'r Sgowtiaid a fi oedd yr unig ferch yn y criw; fe wnes i fwynhau hynny achos fe ges i fynd i wersylla gyda'r bechgyn, adeiladu pebyll a chreu tanau gwersyll. Rai misoedd yn ddiweddarach cafodd grŵp Geidiau ei ffurfio.

**Beth yw'ch hoff raglen deledu a pham?** Friends, y gyfres; mae'n ddoniol a dwi byth yn blino edrych arni.



**Enw:** Janine Elworthy

**Teitl y swydd:** Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant

**Ers pa bryd ydych chi wedi bod yn gweithio Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs?** Ers Medi 2019

**Beth yw'ch hoff atgof o'ch plentyndod?** Chwarae yn y tywod, mwd a graean


**Beth ydych chi'n hoff o'i wneud yn eich amser sbâr?** Cyfarwyddo mewn rali.

**Beth yw eich hoff raglen deledu?** Dwi ddim yn wyliwr mawr, efallai Grand Designs? Fe welais i raglen ddogfen anhygoel dros y penwythnos; dwi'n meddwl mai 'The Magic Pill'oedd ei henw. Roedd yn sôn am sut yr oedd deiet wedi achosi clefydau modern, a sut y gallai mynd nôl at fyd natur fod yn ateb i'r argyfwng gordewdra.

**Os gallech gael arch-bŵer, beth fyddai a pham?** Telegludo, mae eistedd mewn tagfeydd traffig yn fy nghynddeiriogi.

**Beth fyddai pobl yn synnu o'i glywed amdanoch?** Dwi'n hoff o arddangos fy llysiau mewn sioeau garddwriaethol. Mae paru llysiau â'i gilydd, a phwmpenni enfawr yn fy ngwneud i'n hapus. Ma' fy ffrindiau'n meddwl mod i'n wallgo.

**Beth yw'ch holl ffilm a pham?** Love Actually, achos dylai pethau wastad orffen yn dda i bobl dda.



**Enw:** Tracey Bargh

**Teitl y swydd:** Swyddog Hyfforddi Gogledd Cymru

**Ers pa bryd ydych chi wedi bod yn gweithio i Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs?** Ers Rhagfyr 2006

**Beth yw'ch hoff atgof o'ch plentyndod?** Chwarae y tu allan. Gwneud deniau a siglenni rhaff yn y coed.

**Beth ydych chi'n hoff o'i wneud yn eich amser sbâr?** Cymdeithasu, mynd ar wyliau a mynd am dro gyda fy nheulu a'm ci.

**Os gallech gael arch-bŵer, beth fyddai a pham?** Cael y gallu i hedfan. Yna gallwn fynd unrhyw le heb i'r traffig effeithio arna i.

**Petaech chi wedi'ch gadael ar ynys bellennig ac yn gallu cael un eitem foethus (heblaw am ffôn symudol) beth fyddai a pham?** Cyllell filwrol Swistirol i baratoi bwyd, amddiffyn ein hunain ac adeiladu cysgod.

**Beth fyddai pobl yn synnu o'i ddarganfod amdanoch?** Dwi'n gwirioni ar fentro. Dwi wedi plymio o'r awyr, a hynny'n cynnwys cwymp rhydd am 30 eiliad. Dwi wrth fy modd yn sgïo ac mae gen i bas i fynd i holl bethau Zip World yn rhad ac am ddim.

## Asiantaeth Ofod y DU

Yn rhan o'n prosiect sydd wedi ei ariannu gan Asiantaeth Ofod y DU, fe wnaethom gynnal 3 "Digwyddiad Lansio" mewn gwahanol leoedd yng Nghymru yn ystod Hydref 2019. Fe wnaeth pob Digwyddiad gynnwys ein Gweithdy Gofod newydd yn ogystal â'r cyfle i brofi planetariwm chwyth trwy garedigrwydd Dark Sky Wales. Cyflenwyd y sioe blanetariwm gan addysgwr proffesiynol mewn seryddiaeth, a gymerodd y Gweithwyr Chwarae ar daith fytholegol o'r nen, gan ddarganfod y cosmos modern, yn cynnwys planedau, llwybrau llaethog a nifylau, a phawb wedi ymgolli mewn profiad gweledol a chlywedol ysblennydd!

Wedi ymgysylltu ardderchog a rhai cynigion hyfryd yn ein **Cystadleuaeth Asiantaeth Ofod y DU**, y 6 Chlwb Gofal Plant Allysgol Buddugol a lwyddodd i gael y nifer fwyaf o 'hoffi' ar eu cynigion i'r gystadleuaeth oedd:

Clwb Hwyl Oasis, Y Bermo
Clwb Allysgol Little Darlings
Cynllun Chwarae Brynna (Canolfan 'Drop In' Llanharan)
Yellow Bunnies
Teddy Bear Towers
Clwb Allysgol St Andrews

Cafodd bob un o'r 6 Clybiau Gofal Plant Allysgol weithdai Gofod yn eu Clwb yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd.

Gwelir canlyniadau llawn y Prosiect yma yn ein rhifyn Gwanwyn o'r Bont!

## Ymlaen i Hunanasesu!

Fel y nodir yn ein rhifyn Hydref o'r Bont, mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) wedi cyhoeddi bod y Datganiad ar Hunanasesu Gwasanaeth i ddod i rym yn achos Darparwyr Gofal Plant Allysgol yn gynnar yn Ionawr 2020.

Mae'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth blaenorol (a oedd wedi'i rannu'n 2 ran) wedi ei gywasgu'n un, ynghyd â cheisiadau am wybodaeth a fydd yn rhoi i AGC a Llywodraeth Cymru wybodaeth werthfawr mewn perthynas â digonolrwydd y gofal plant (nifer y lleoedd, y gwasanaethau a gynigir a.y.b.), ansawdd a meysydd eraill o ddiddordeb i'r Gwneuthurwyr Polisi (er enghraifft, effaith y Cynnig Gofal Plant, y defnydd o'r iaith Gymraeg). Mae AGC wedi ymgynghori â Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, ynghyd ag eraill ym mhartneriaeth CWLWM, i helpu i sicrhau y bydd y Datganiad Hunanasesu'n addas i ddiben y Sector Gofal Plant, ac i'n galluogi i fod mewn lle da i gefnogi Clybiau Gofal Plant Allysgol drwy'r broses.

Bydd AGC yn cysylltu â'r holl Ddarparwyr drwy lythyr i'ch hysbysu ynglŷn â'r Hunanasesu; ar yr adeg honno bydd angen i chi gysylltu ag AGC dros y ffôn er mwyn iddynt roi Rhif Adnabod Personol i asesu eich cyfrif ar-lein (mae angen Rhif Adnabod Personol hyd yn oed i'r Darparwyr hynny a gymerodd ran yn yr Hunanasesu diwethaf).

Tachwedd 4ydd – llythyrau i ddarparwyr sydd heb unrhyw gyfrif ar-lein blaenorol;
Tachwedd 11eg – llythyrau'n cael eu hanfon i Warchodwyr Plant sydd â chyfrifon ar-lein; a
Tachwedd18fed – llythyrau'n cael eu hanfon i ddarparwyr Gofal Dydd sydd â chyfrifon ar-lein.

Os nad ydych wedi derbyn eich llythyr, cofiwch eich bod yn cysylltu ag AGC gan ei fod yn bwysig bod gennych eich Rhif Adnabod Unigol er mwyn cyrchu a chyflwyno eich Datganiad Hunanasesu cyn y terfyn amser, a fydd 28 diwrnod o'r dyddiad y bydd yn dechrau ym mis Ionawr (y dyddiad i'w gadarnhau).

Rydym yn gobeithio y gwnaeth y rhai ohonoch a fynychodd ein Digwyddiadau Rhwydwaith yn yr Hydref, yn cynnwys sgwrs gan AGC am y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth, gael y profiad yn werthfawr. Byddwn hefyd yn cynnig cefnogaeth i'r sector drwy gydol mis Ionawr – cysylltwch â'ch Swyddog Rhanbarthol os byddwch angen cymorth.

# Diweddariad i Gyflogwyr

## Diwedd y daith i ddod yn Sefydliad Elusennol Corfforedig

Llongyfarchiadau! Rydych wedi cyrraedd pen y daith, wedi cyflwyno'ch holl waith papur i'r Comisiwn Elusennau, ac wedi derbyn eich rhif Elusen. Rydych wedi ailgofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru ac mae gennych eich rhif cofrestru.

Yna ŵr, fel Bwrdd o Ymddiriedolwyr mae angen i chi gytuno ar y dyddiad y bydd eich hen Gymdeithas Anghorfforedig yn peidio â bodoli; ar, neu cyn, y dyddiad hwn, bydd yr holl asedion yn cael eu trosglwyddo i'ch SEC.

Fel SEC, ynghyd â'r statws cyfreithiol cadarn sydd yn awr yn eiddo i chi, mae gennych **ofynion adrodd** i'r Comisiwn Elusennau.

Mae staff Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yma i'ch cefnogi drwy'r broses hon hefyd, ynghyd â thempledi ac arweiniad.

Mae gwahanol ofynion ar gyfer gwahanol feintiau a mathau o elusen. I ddeall beth sy'n gymwys i'ch elusen, bydd angen i chi wirio:

• A yw'ch elusen hefyd yn gwmni (wedi ei chofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau a'r comisiwn)?
• A ydych yn sefydliad elusennol corfforedig sydd wedi cofrestru'n llwyr gyda'r comisiwn?
• Incwm eich elusen am y flwyddyn ariannol bresennol
• Gwerth asedion eich elusen

Bydd yr atebion i'r uchod yn penderfynu a yw eich elusen yn awr o faint lle mae angen iddi gael ei chofrestru fel elusen gyda'r comisiwn.

Yna dylech sicrhau bod ymddiriedolwyr yr elusen yn deall:

• pa fath o gyfrifon sydd yn rhaid eu paratoi
• pa wybodaeth sydd angen ei rhoi yn adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr (adroddiad blynyddol)
• a oes angen archwiliad annibynnol neu archwiliad swyddogol ar y cyfrifon
• pa wybodaeth y dylid ei hanfon i'r comisiwn

Os oes yn rhaid i chi anfon adroddiad blynyddol a chyfrifon eich elusen i'r comisiwn, rhaid i chi wneud hynny o fewn 10 mis i ddiwedd blwyddyn ariannol eich elusen. I fod yn dryloyw, fe'ch anogir gan y comisiwn i wneud hynny llawer ynghynt na hyn er mwyn rhoi'r darlun mwyaf diwedd a phresennol o'ch elusen i rai sydd â diddordeb yn ei gwaith.

**Cyfrifon, adroddiadau blynyddol a dychwelebau blynyddol:** eu paratoi a'u ffeilio gyda'r comisiwn Paratoi'r cyfrifon: **rhaid** i **bob elusen** (p'un a ydynt wedi cofrestru gyda'r comisiwn ai peidio) baratoi cyfrifon a sicrhau eu bod ar gael ar gais.

**Paratoi adroddiadau ariannol yr ymddiriedolwyr:** rhaid i bob elusen gofrestredig baratoi adroddiad ariannol gan yr ymddiriedolwyr a sicrhau ei fod ar gael ar gais.

**Ffeilio cyfrifon ac adroddiadau ariannol:** rhaid i **bob** sefydliad elusennol corfforedig (waeth beth fo'u hincwm) ffeilio eu cyfrifon ac adroddiad blynyddol gyda'r comisiwn. Dylid ffeilio'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon ar-lein.

**Ffurflen ddychweleb flynyddol:** rhaid i **bob** sefydliad elusennol corfforedig, **waeth beth fo'u hincwm crynswth** yn ystod y flwyddyn ariannol, gwblhau a ffeilio dychweleb flynyddol gyda'r comisiwn.

Mae pob elusen gofrestredig yn derbyn ffurflen ddychweleb flynyddol oddi wrth y comisiwn yn fuan wedi i'r flwyddyn ariannol ddod i ben. Ym mhob achos dylid cwblhau'r ddychweleb flynyddol ar-lein. Mae'r ffurflen flynyddol yn gymorth i'r comisiwn wneud yn sicr fod manylion pob elusen ar y gofrestr elusennau mor gyflawn a chywir â phosibl. Mae'r ddychweleb flynyddol yn rhoi i'r comisiwn fanylion ariannol sylfaenol, manylion pobl gyswllt, ymddiriedolwyr, gweithgareddau a chategori'r elusen.

**Mathau o gyfrifon elusennol**
Gall elusen baratoi naill ai cyfrifon derbyniadau a thaliadau neu gyfrifon croniadau. Incwm yr elusen a fydd yn penderfynu pa un o'r rhain y bydd eu hangen ac a yw wedi ei sefydlu fel cwmni elusennol.

**Cyfrifon derbyn a thalu**
Dyma'r symlaf o'r 2 ddull o baratoi cyfrifon ac mae'n bosib y caiff ei ddefnyddio ddim ond lle bydd gan elusen nad yw'n gwmni incwm crynswth o £250,000 neu lai yn ystod y flwyddyn ariannol.

Mae cyfrifon derbyn a thalu'n cynnwys datganiad sy'n rhoi manylion ei asedau a'i rwymedigaethau ar ddiwedd y flwyddyn. Nid oes hawl gan gwmnïau elusennol, yn ôl cyfraith cwmnïau, i fabwysiadu'r dull hwn.

Dylai SECau wrth baratoi eu cyfrifon ar sail derbyniadau a thaliadau nodi bod gofyn iddynt wneud 2 ddatgeliad penodol parthed gwarantau a dyled.

**Archwiliad swyddogol neu archwiliad annibynnol?**
Dim ond elusennau sydd ag incwm gros o dros £25,000 yn eu blwyddyn ariannol sydd yn gorfod cael eu cyfrifon wedi eu harchwilio'n annibynnol neu'n swyddogol.

Mae'r math o graffu sy'n ofynnol yn dibynnu ar incwm ac asedion yr elusen. Yn fras, mae angen archwiliad annibynnol os yw'r incwm crynswth rhwng £25,000 ac £1 miliwn, ac mae angen archwiliad swyddogol lle mae'r incwm crynswth dros £1. Bydd hefyd angen archwiliad swyddogol os yw'r cyfanswm o'r asedau (cyn rhwymedigaethau) dros £3.26 miliwn, ac incwm crynswth yr elusen dros £250,000.






## A ydych chi'n Barod am Archwiliad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)?

Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Mae pob Clwb Gofal Plant Allysgol Cofrestredig yn cael archwiliadau gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) er mwyn gwneud yn sicr fod gofal diogel yn cael ei ddarparu, a'u bod yn cydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Os ydych wedi cael Archwiliad o'r blaen, mae'n bosibl y byddwch yn ymwybodol o'r mathau o bolisïau/prosesau/gweithdrefnau y bydd AGC o bosibl yn eu hadolygu. I'ch atgoffa o'r pethau y dylid cael eu hadolygu'n rheolaidd i wneud yn sicr fod eich lleoliad yn 'Barod am Archwiliad' byddwn yn cynnwys erthygl ym mhob rhifyn o'r Bont, gyda detholiad o brosesau/gweithdrefnau a allai gael eu hadolygu yn eich Archwiliad nesaf. Nid yw'r rhestr yma'n gyflawn a dylid ei hystyried ochr yn ochr â'r ddeddfwriaeth berthnasol, y Safonau Gofynnol Cenedlaethol a dogfennau eraill cyfeirnodol (er enghraifft ein hadnodd, "Camu Allan").

**Cyfranogaeth Plant**
Mae gan blant sy'n gallu ffurfio eu safbwyntiau eu hunain yr hawl fynegi'r safbwyntiau hynny yn rhydd ar bob mater sy'n effeithio ar y plentyn, a'r safbwyntiau hynny'n derbyn ystyriaeth haeddiannol yn unol ag oed ac aeddfedrwydd y plentyn (Erthygl 12, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn).

**Mewn Clybiau Gofal Plant Allysgol dylai cyfranogaeth fod yn ethos canolog. Mae cael cyfle i fwydo'n ôl barn cael gwrandawiad a bod ynglŷn â phenderfyniad yn creu synnwyr o berchnogaeth, cynyddu hunan-dyb a chynyddu ymgysylltiad plant mewn gweithgareddau.**

Ymhlith y ffyrdd y gallwch wneud yn sicr (a dangos) eich bod yn blaenoriaethu Cyfranogaeth Plant mewn Clwb y mae:

- Gwneud yn sicr fod gennych Bolisi Cyfranogaeth Plant yn ei le
- Sefydlu Pwyllgor Plant
- Cynnal cyfarfodydd plant
- Rhowch gychwyn ar focs awgrymiadau, neu wal nodion post-it
- Defnyddiwch holiaduron ar ôl gweithgareddau newydd, tripiau ac ynghylch prydau/byrbrydau a gynigir i gasglu adborth.
- I gael atebion cyflymach i gwestiynau, gallech geisio defnyddio gemau i ennill adborth (e.e. rhedwch i'r wal yma os ydych chi'n meddwl...) neu gofynnwch un cwestiwn ar y pryd drwy gyfrwng 'pleidlais dotiau gludiog'.
- **Lluniwch 'Ffeil Gyfranogaeth' lle gallwch gynnwys holiaduron, ffotograffau a ffynonellau eraill o wybodaeth/tystiolaeth y gallwch eu defnyddio i ddangos mewn archwiliadau sut yr ydych yn sicrhau bod gan y plant sy'n mynychu eich Clwb lais.**
- Byddwch â bwrdd "Fe ddwedoch chi, Fe wnaethom ni" lle byddwch yn nodi'r adborth a dderbynnir o'r plant a'r hyn yr ydych chi wedi ei newid i ymateb iddo. Lle nad yw newidiadau'n bosibl, beth am geisio cyfaddawd, neu manylwch ar paham nad yw'r newidiadau'n rai y gellir eu gwneud, fel y bo'r plant yn deall yn well ac yn teimlo bod eu mewnbwn wedi ei werthfawrogi.
- Bod â Newyddlen Clwb sydd wedi ei 'staffio' a'i reoli gan y plant eu hunain.
- Mynychu hyfforddiant ar Hawliau a Chyfranogaeth Plant.

**Clybiau Gofal Plant Allysgol mewn Meithrinfeydd Dydd**
Mewn rhai archwiliadau diweddar mewn Meithrinfeydd Dydd, mae adborth wedi ei roi yn benodol ynghylch y ddarpariaeth Ofal Plant Allysgol sydd ar y safle. Mewn rhai Meithrinfeydd Dydd, mae cyfyngiad ar y nifer o leoedd sydd wedi eu neilltuo ar gyfer plant o oed ysgol; er hynny, pery'n hanfodol bod y plant yma'n cael profiad sy'n addas i'w hoed. Drwy gael cyfarpar priodol a man addas, gall staff wedi'u hyfforddi mewn gwaith chwarae a marchnata pwrpasol o'r Clybiau Gofal Plant Allysgol nid yn unig ategu at ansawdd eu profiad i'r plant hyn, a hybu eu mwynhad a'u datblygiad; gall hefyd atgyfnerthu cynaliadwyedd y busnes cyfan, gan fod plant yn llawer mwy tebygol o fod eisiau mynychu Clwb sydd â'i hunaniaeth ei hun ac apêl oed-berthnasol yn hytrach na rhywbeth a welir fel rhan o'r ddarpariaeth gyffredinol o Feithrinfeydd.

Wrth gynllunio ar gyfer eich Clwb Gofal Plant Allysgol y mae'n ddefnyddiol ymgorffori'r dulliau o gael Cyfranogaeth Plant a nodir yn yr adran flaenorol, er mwyn gwneud yn siŵr fod y gweithgareddau a'r adnoddau a ddarperir yn ddeniadol ac yn addas ar gyfer yr ystod oed yr ydych yn paratoi ar eu cyfer.

**Os oes arnoch angen cefnogaeth neu wybodaeth mewn perthynas â'r wybodaeth uchod, neu er mwyn paratoi ar gyfer eich archwiliad nesaf, cysylltwch â'ch Swyddfa Ranbarthol os gwelwch yn dda.**

## Llywodraethiad mewn Clybiau Gofal Plant Allysgol


**Yn ein rhifyn Gaeaf o'r Bont, esboniodd ein herthygl am lywodraethiad mewn Clybiau Allysgol nad yw aelodau pwyllgorau nifer o Glybiau sy'n cael eu rhedeg gan bwyllgorau gwirfoddol yn cael eu gwarchod yn ddigonol rhag cyfrifoldeb personol** os yw asedion y gyfundrefn yn annigonol i ateb y rhwymedigaethau. Argymhellir bod â **strwythur cyfreithiol** sy'n cyfyngu atebolrwydd ei aelodau am unrhyw rwymedigaethau o eiddo'r gyfundrefn.

Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn gallu cynnig gwybodaeth i glybiau sy'n cael eu rhedeg yn wirfoddol, i'w helpu i adolygu eu model rheoli a phenderfynu a yw yn dal yn addas wrth symud ymlaen, drwy ddefnyddio ein hadnodd **'Ei Chael Hi'n lawn yn Gyfreithiol'** (GIRL) sydd ar gyfer y sector chwarae a gofal plant.

Un opsiwn yw dod yn **Sefydliad Elusennol Corfforedig (SEC)**, lle bydd unrhyw gyfrifoldebau sy'n codi e.e. o gyflogi staff neu rentu adeiladau, yn syrthio ar y gyfundrefn ei hun yn hytrach nag ar aelodau unigol o'r pwyllgor.

**Y camau sylfaenol wrth symud i'r strwythur cyfreithiol hwn yw:**
1. Drafftio cyfansoddiad (set o reolau) i'r cwmni newydd
2. Cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau
3. Trosglwyddo busnes yr hen grŵp gwirfoddol i'r cwmni newydd (SEC)
4. Dod â'r hen grŵp gwirfoddol i ben.

Dowch i gysylltiad â'ch Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant neu'ch swyddfa ranbarthol os hoffech ragor o wybodaeth am Ei Chael Hi'n lawn yn Gyfreithiol, sy'n amlinellu manteision ac anfanteision amrywiaeth eang o fodelau ar gyfer y sector gofal plant a chwarae.



# Gweithgareddau'r Gaeaf

Mae'r gaeaf yn amser delfrydol i fynd i chwilota yn yr amgylchedd ac i'r pethau o'ch cwmpas mewn ffordd wahanol. Ystyriwch bosibiliadau tywydd oerach, a nosau a boreau rhewllyd; hefyd y prynhawniau'n tywyllu… mae'r tymhorau newidiol yr ydym ni'n ddigon ffodus i'w cael yn rhoi i blant a phobl ifanc brofiad chwarae posibl newydd a chyfoethog.

## Gemau bwrdd

Ceisiwch wneud eich Twister eich hun. Gan ddefnyddio hen gynfas gofynnwch i'r plant baentio eu dwylo a'u traed a'u rhoi ar y gynfas; gadewch hi i sychu, ac mae gennych Twister personol. Gallent ddefnyddio rhannau eraill o'u cyrff hyd yn oed - bochau, penelinoedd, pengliniau - i wneud un gwahanol.

Neu, paentiwch y dwylo a'r traed ar ddarn o bapur, gadewch iddo sychu a lamineiddiwch. Torrwch nhw ac yna gallech gael gêm symudol o Twister. Pa gemau eraill a allent eu hail-greu? Defnyddiwch gardfwrdd a pheniau fel y gallant eu creu eu hunain.

## Swmo

Gêm wych o baffio garw, y gallech ei dewis yn lle reslo hosan. Gwnewch safle swmo drwy ddefnyddio blancedi, matiau taro, clustogau neu debyg. Yna bydd arnoch angen dau grys-t dynion o faint mawr a chlustogau. Gan gymryd dau blentyn ar y tro, gofynnwch iddyn nhw roi



crys-t amdanynt a'i badio allan â chlustogau ar y tu blaen a'r tu ôl iddynt. Ac yn awr, swmo. Gwnewch yn siŵr ymlaen llaw eich bod yn gosod y rheolau sylfaenol gyda'r grŵp.

## Bwydwyr adar

Ffordd syml iawn o wneud bwydwyr adar yw trwy ddefnyddio tiwbiau rholiau papur toiled, menyn pysgnau a hadau adar. Does ond eisiau gorchuddio'r tiwb papur toiled mewn



menyn pysgnau, rholiwch ef mewn hadau adar, gadewch iddynt galedu ac yna dewiswch gangen neu rywle arall i'w hongian. Os nad ydych am ddefnyddio rholiau toiled yna defnyddiwch ddarn o dost. Fe allech efallai wneud gwahanol siapiau ohonynt. Pa adar a allwch chi eu gweld?

## Pengwiniaid bocs ŵy

Y cyfan sydd ei angen arnoch yw bocsys wyau, paent du, papur gwyn ac oren a llygaid gwgl.



Paentiwch y bocsys wyau'n ddu a'u gadael i sychu, yna torrwch siapiau'r "cwpanau" unigol, eu troi wyneb i waered a glynwch ddarnau o bapur gwyn ac oren a llygaid gwgl arnynt i greu pengwin. Beth arall a all y plant eu gwneud o focsys wyau?

## Fflach ar Un

Llawer o hwyl i'w gael o'i chwarae ar y nosweithiau tywyllach. Bydd angen nifer o dortshis …. Gallwch eu prynu am £1 yr un o siopau "prynwch fi am bunt". Rhowch dortsh i bob plentyn a mynd ati i chwarae 'Fflach ar Un'; os cewch eich dal yng ngolau'r dortsh a'ch enw'n cael ei alw, chi yw'r 'Un'. Pa gemau eraill a ellir eu chwarae yn y tywyllwch?

## Paent Eira

Petai'r Diawl o'r Dwyrain yn dychwelyd eleni yna rhaid bydd bod allan yn yr eira, ond beth am baentio yn yr eira? Defnyddiwch boteli chwistrell gwag, llenwch nhw â dŵr ac ychwanegwch bwydliw i greu paent eira cartref. Yna does ond eisiau pwyntio a chwistrellu. Am liwiau cryfach rhowch gynnig ar fwydliwiau jêl.



# Cornel Arddio Georgie

## Bwydwch yr Adar

Mae'r gaeaf yn dymor anodd i adar, a'r adar llai ag angen bwyta trydedd ran eu pwysau bob dydd i oroesi tymereddau isel. Mae bwydo'r adar yn ystod y gaeaf yn helpu plant i gysylltu â natur yn ystod y misoedd hir, tywyll, a gall fod yn weithgaredd llawn hwyl, smonach a chreadigrwydd!

Gallwn fod yn greadigol gyda Lego, neu addurno defnyddiau wedi eu hailgylchu, megis hen gartonau, i greu bwydwyr anhygoel.

I wneud bwydwr adar syml, byddwch angen:

- Lard
- Hadau adar cymysg
- Torrwr bisgedi
- Rhuban

Y gymhareb orau ar gyfer y rysáit yma yw un rhan saim i ddwy ran cymysgedd sych. Cymysgwch eich cynhwysion sych gyda'i gilydd mewn powlen.

Toddwch lard mewn padell ac ychwanegwch y cymysgedd sych. Cymysgwch yn dda nes bo'r cyfan o'r saim wedi ei amsugno a bod y cymysgedd yn glynu wrth ei gilydd.

Rhowch y torrwr bisgedi ar hambwrdd neu bapur pobi; llenwch ef â'r cymysgedd hadau a'u wasgu i lawr â chefn llwy fel ei fod wedi ei gywasgu'n dynn.

Defnyddiwch sgiwer i wneud twll ar gyfer y rhuban. Rhowch yn yr oergell a'i adael i setio dros nos. Rhyddhewch y siâp yma allan o'r torrwr, a gwthiwch ruban drwyddo.



